# Rhaglen Gyflawn

**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 6ED HYDREF, 2016**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 29/09/16)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

www.gwynedd.llyw.cymru


**DYDD IAU, 29 MEDI 2016**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 6 HYDREF 2016**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf, **6ED HYDREF, 2016 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol - Ystafell Peris
Llafur – Cefn Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 6 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 30 Mehefin, 2016, fel rhai cywir (ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd..

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

**8. CYFLWYNO DEISEB**

Nodi bod cais i gyflwyno deiseb wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd Stephen Churchman.

**9. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16** 14 - 54

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol (ynghlwm).

**10. ADRODDIADAU BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU CRAFFU 2015/16** 55 - 75

Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Arweinydd (ynghlwm).

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD 2015/16** 76 - 89

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau  (ynghlwm).

**12. DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014** 90 - 92

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro  (ynghlwm).

**13. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 93 - 97

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd  (ynghlwm).

**14. ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR** 98

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd  (ynghlwm).

**15. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD OWAIN WILLIAMS**

Yn unol â’r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o’r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Owain Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

**“’Rwy’n cynnig ein bod yn datgan siomedigaeth wrth Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol am wrthod cydnabod cyfraniad aruthrol ein tîm pêl droed cenedlaethol tuag at ein hunaniaeth a’n hunan-barch fel cenedl, drwy wrthod eu cydnabod a’u hanrhydeddu adeg yr Eisteddfod olaf yn y Fenni.**

**Oherwydd hyn, galwn arnynt i ail ystyried ac i roddi i’r tîm bob anrhydedd maent yn ei haeddu, a hyn ar y cyfle cyntaf.”**

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD DYFED EDWARDS**

Yn unol â’r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o’r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Dyfed Edwards yn cynnig fel a ganlyn:-

**“Yn dilyn y Refferendwm diweddar ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd nodwn fel Cyngor fod pobl Gwynedd wedi pleidleisio yn glir i barhau yn aelodau o'r UE er i Gymru a gweddill gwledydd Prydain bleidleisio yn erbyn. Yn sgil y canlyniad yma, ail-ddatganwn fel Cyngor ein bod yn falch o fyw mewn cymdeithas amrywiol a goddefgar.**

**Nid oes gan hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb unrhyw le yng Ngwynedd. Rydym fel Cyngor yn condemnio hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb ac ni fyddwn yn caniatáu casineb i fod yn dderbyniol.**

**Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cyrff a rhaglenni lleol yn cael y cymorth sydd angen  i ymladd ac atal hiliaeth a senoffobia.  Rydym hefyd yn rhoi sicrwydd i bawb sy'n byw yn yr ardal hon eu bod yn aelodau o'n cymuned werthfawr.”**

# Y CYNGOR DYDD IAU, 30 MEHEFIN 2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Annwen Daniels (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Stephen Churchman, Anwen Davies, Lesley Day, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Sian Wyn Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W. Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Michael Sol Owen, W. Roy Owen, William Tudor Owen, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Glyn Thomas, Ioan Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R. H. Wyn Williams a Mandy Williams-Davies.

**Swyddogion yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – ar gyfer eitem 8 ar y rhaglen), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd – ar gyfer eitem 7 ar y rhaglen), Nia Davies (Rheolwr Polisi Cynllunio – ar gyfer eitem 7 ar y rhaglen), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Gweno Glyn, Aeron M.Jones, Dyfrig Wynn Jones, Linda A.W.Jones, June E.Marshall, Dewi Owen, Peter Read a Hefin Underwood.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2016 fel rhai cywir.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

<u>Cydymdeimlad</u>

Cydymdeimlwyd â theulu Jo Cox, AS, a lofruddiwyd mewn amgylchiadau erchyll yn Swydd Efrog yn ddiweddar a thalwyd teyrnged iddi gan y Cynghorydd Gwen Griffith.

Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Athro Gwyn Thomas, bardd, ysgolhaig a beirniad llenyddol.

Nodwyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd yr holl bobl ifanc a phlant o Wynedd fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili.

Llongyfarchwyd Elin Thomas, yn enedigol o Llannor, Pen Llŷn, am gynrychioli Cymru a chanu'r anthem genedlaethol Gymreig ar ddechrau'r tair gêm rygbi rhyngwladol diweddar rhwng Seland Newydd a Chymru, a dymunwyd bob llwyddiant iddi i'r dyfodol.

Materion Eraill

Ad-drefnu Llywodraeth Leol

Adroddwyd y cyhoeddodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gyllid a Llywodraeth Leol, ddatganiad ar y 23ain o Fehefin yn cadarnhau:-

- Y bydd cynghorwyr lleol sy'n cael eu hethol yn etholiad Mai 2017 yn gwasanaethu tymor pum mlynedd (Mai 2017 i Mai 2022) ac y bydd hyn yn cyd-fynd â chylch etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd hefyd nawr yn bum mlynedd.
- Na fyddai unrhyw adolygiad i ffiniau etholaethau cyn yr etholiad ym mis Mai, a olygai y byddai 75 aelod etholedig yn parhau i wasanaethu ar Gyngor Gwynedd o Fai 2017 ymlaen.

Byddai mwy o wybodaeth am adolygu llywodraeth leol i ddilyn erbyn tymor yr hydref.

Dadorchuddio Plac

Adroddwyd bod croeso i bawb fod yn bresennol mewn seremoni ym Mhlas Llanwnda, Stryd y Castell, Caernarfon am 11.45yb ar ddydd Gwener, 1 Gorffennaf, i ddadorchuddio carreg gofeb ar gyfer yr Uwch Gapten Lionel Wilmot Brabazon Rees, sef yr unig berson o Wynedd i dderbyn y Groes Fictoria yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Coffau Brwydr Coed Mametz

I nodi canrif ers Brwydr Coed Mametz, Brwydr Gyntaf y Somme yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, estynnwyd gwahoddiad i bawb i Agoriad Swyddogol Gardd Goffa'r Rhyfel Mawr yng Nghastell Caernarfon am 12.00yb ar ddydd Iau, 7 Gorffennaf. Nodwyd y cynhelir gweithgareddau eraill fel rhan o Agoriad yr Ardd Goffa yn y Castell hefyd gyda Chôr Rygbi Gogledd Cymru a Band y Signalau Brenhinol yn cymryd rhan.

Seremoni y Cyngor ar ei Orau

Nodwyd:-

- Bod Seremoni flynyddol y Cyngor ar ei Orau yn gyfle i ddathlu holl waith ardderchog y 7,000 o staff sy'n gweithio i Gyngor Gwynedd i ddarparu amrediad o wasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau trigolion y sir, aelodau staff sy'n mynd tu hwnt i'w swydd ddisgrifiad i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth maent yn ei wneud.
- Bod y pum gwobr sy'n cael eu cyflwyno yn ystod y Seremoni yn ymwneud â gwerthoedd y Cyngor sef Gwerth am Arian, Positif, Gweithio fel Tïm, Parch a Gwasanaethu, sef pum gwerth sy'n graidd i egwyddorion y Cyngor ac yn arwain ei ffordd o weithio gan amlygu beth sy'n bwysig os am ddarparu'r gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd.

- Bod nifer fawr o enwebiadau yn cael eu derbyn ar gyfer y gwobrau, a rheini ar gyfer staff o bob adran o'r Cyngor, a bod yr enwebiadau yn dod gan gydweithwyr y staff a enwebwyd.

Er mwyn rhoi blas o'r gwaith da sy'n cael ei gyflawni, dangoswyd clip fideo byr o'r enwebwyr yn y categori Gwerth am Arian.

Gair o Ddiolch

Nododd aelod ei ddymuniad i ddiolch i'r mwyafrif o etholwyr Gwynedd oedd wedi pleidleisio o blaid aros yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd yn y Refferendwm diweddar.

**4. CWESTIYNAU**

**(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Wyn Jones**

"A oes modd i'r Aelod Cabinet wneud datganiad ynglŷn â'r diffyg torri gwair yng Ngwynedd?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Amgylchedd**

"Mae'r Aelod yn ymwybodol o'r sefyllfa ariannol anodd iawn sy'n wynebu'r Awdurdod hwn ac o benderfyniad y Cyngor hwn ar 3 Mawrth, 2016 i weithredu 49 toriad i wasanaethau oedd yn cynnwys lleihau nifer o doriadau gwair mewn rhai lleoliadau.

O ganlyniad bydd yn rhaid i ni, yn anffodus, dderbyn bod hyn yn golygu dirywiad mewn edrychiad rhai lleoliadau ar adegau o'r flwyddyn a pham fydd amrywiaethau yn y tymor tyfu fel yn achos eleni.

Mae'r Adran berthnasol yn monitro effaith gwireddu'r newid yn ofalus, yn sicrhau bod lleoliadau lle mae pryderon o ran diogelwch yn derbyn blaenoriaeth ac yn addasu'r rhaglenni torri lle yn bosib' er mwyn ceisio lliniaru effaith y newid hwn. Bydd yr addasiadau i'r rhaglenni torri yn parhau am yr hyn sy'n weddill o'r tymor tyfu a'r flwyddyn. Hoffwn ddiolch o ddifri' i staff Cynnal Tiroedd am sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni er y newidiadau."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Wyn Jones**

"Ydi'r Aelod Cabinet yn fodlon ystyried rhoi cyfrifoldeb torri gwair i gynghorau cymuned a thref neu gael strategaeth newydd yn yr adran?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Amgylchedd**

"Mae Cyngor Gwynedd, wrth gwrs, yn fodlon gweithio hefo cynghorau cymuned ym mhob maes sy'n bosib', ac mae hwn yn un o'r meysydd sydd yn bosib', ond rhaid bod yn ofalus nad ydym yn ei basio drosodd heb sicrwydd gan y cynghorau cymuned ar rai materion, e.e. ynglŷn ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a hefyd eu bod yn derbyn y cyfrifoldeb os bydd damwain yn digwydd ac mae hyn i mi yn rhywbeth y dylent ei ystyried o ddifri'. Mi fyddwn i'n fodlon trafod unrhyw ddatrysiad sy'n well na'r hyn 'rydym yn ei wneud ar hyn o bryd. 'Rwy'n llongyfarch yr adran oherwydd mae wedi bod yn dymor tyfu anodd iawn hefo tywydd mor gyfnewidiol ac 'rydym i gyd wedi profi hynny yn ein gerddi yn gyffredinol ac 'rwy'n meddwl bod yr adran a'r gweithwyr sydd wedi bod ar y rheng flaen wedi gwneud gwaith rhyfeddol yn y misoedd sydd wedi pasio."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Aled Evans**

"A wnaiff yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am gynllunio adrodd ar y camau a gymerir i wneud yn siŵr y bydd datganiadau ardrawiad ieithyddol a ddarperir gyda cheisiadau cynllunio o dan y CDLL yn ddiduedd, fel na bo ymgeisydd yn darparu y fath ddatganiad fel rhan o'i gyflwyniad am ganiatâd i unrhyw ddatblygiad?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Ar hyn o bryd 'rydym yn penderfynu ceisiadau cynllunio yn ôl y Cynllun Datblygu Unedol presennol ac mae'r cwestiwn yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Lleol, fydd yn cael ei fabwysiadu gobeithio gan y Cyngor ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Felly, beth sy'n gyrru'r asesiadau ardrawiad ieithyddol yw'r canllawiau cynllunio atodol sydd ynghlwm â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae y rheini ar hyn o bryd yn cael eu haddasu ac fel 'rydw i wedi egluro mewn erthygl yn Rhaeadr ddechrau'r mis, mae yna waith yn mynd ymlaen i ddiweddaru'r canllaw cynllunio atodol fydd ynghlwm â'r Cynllun Datblygu Lleol ac mi fydd yna broses ymgynghori ynghlwm â hynny."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Aled Evans**

"Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, mae 75 adroddiad iaith wedi'u cyflwyno, ond dim un argymhelliad i wrthod datblygiad oherwydd effaith andwyol ar yr iaith. A wnewch chi edrych ar y 75 achos yma ac ymchwilio i beth fu'r effaith ar yr iaith Gymraeg er mwyn gweld pa mor agos ati mewn gwirionedd fu'r argymhellion yma?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio**

"'Rydym yn sôn yma am geisiadau cynllunio sydd wedi'u penderfynu o dan yr hen gynllun. Sôn 'rydym am symud ymlaen ac mi fydd yna fethodoleg yn cael ei datblygu o ran sut fydd yr asesiadau yn digwydd ac mi fydd hyn yng nghyd-destun y TAN 20 newydd, wrth gwrs. Nid ydym yn siŵr iawn beth mae hwnnw'n mynd i ddweud wrthym, lle fydd yr asesiadau yma'n cael eu gwneud, ac mae'r cynghorydd wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â hynny ac 'rydym i gyd wedi cael cyfle i fod yn rhan o hynny. Wedyn, mae hwn i gyd o dan drafodaeth - mae beth fydd siâp y canllaw cynllunio atodol newydd yn ddibynnol ar beth fydd yn digwydd yn yr ymgynghoriad ac mae'n rhydd i bawb gymryd rhan yn y broses honno."

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

"Yn wyneb yr oedi mewn unrhyw ddatblygiad ar fonitro effaith y sefyllfa gynllunio bresennol ac arfaethedig ar y Gymraeg yng Ngwynedd yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar Fawrth 18fed, 2016, ydi'r deilydd portffolio yn rhannu'r ddyhead o gynnal moratoriwm ar ddatblygiadau o fwy na thri annedd hyd nes y bydd datrysiad yn y mater hwn sy'n foddhaol i'r Cyngor ac sy'n allweddol i barhad y Gymraeg fel iaith hyfyw yng nghymunedau Gwynedd?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Nid wy'n cytuno bod yna oedi wedi bod mewn ymateb i'r cynnig ar y 18fed o Fawrth. Mae yna ddwy ffrwd gwaith pwysig iawn yn mynd yn eu blaenau, un i ddatblygu'r canllaw cynllunio atodol fydd ynghlwm â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, a hwn fydd yn gyrru sut byddwn yn gwneud yr asesiadau iaith. Yr ail ffrwd gwaith ydi sut y byddwn yn monitro ac yn adolygu'r cynllun yn y dyfodol felly nid wy'n cytuno bod yna

oedi wedi bod. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen ac mae'r erthygl yn Rhaeadr ddechrau mis Mehefin yn egluro'n union beth yw'r camau sydd wedi eu cymryd yn y broses ymgynghori honno. O ran moratoriwm - nid yw hynny'n ymarferol wrth gwrs oherwydd sut mae rhywun yn stopio ceisiadau rhag dod i mewn. Ni allwn stopio ceisiadau rhag dod i mewn - rhaid i ni ddelio gyda hwy ac nid wy'n meddwl bod yna unrhyw beth yn arwyddocaol am dri thŷ. Os ydym yn stopio unrhyw beth dros dri thŷ, ydym ni felly'n dweud bod tri thŷ pedair llofft yng nghanol y wlad yn dderbyniol a phedwar tŷ fforddiadwy bychan ar gyfer defnydd lleol ddim yn dderbyniol? Dyna ydi pwrpas y drefn gynllunio - i asesu ceisiadau fel maent yn dod i mewn. 'Rydym yn eu hasesu ar hyn o bryd yn erbyn y Cynllun Datblygu Unedol ond unwaith y bydd y cynllun newydd yn cael ei fabwysiadu, byddwn yn eu hasesu yn erbyn y cynllun hwnnw."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

"Yn wyneb y ffaith mod i'n gweld bod yna oedi, ydi'r Aelod Cabinet yn teimlo y dylai roi ystyriaeth ddwys i'w rôl bresennol fel ei fod yn rhoi lle i rywun sy'n mynd i barchu'r broses ddemocrataidd sy'n rhan o'r Cyngor yma?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio**

"Nid wy'n cytuno bod yna oedi wedi bod ar y broses. Mae'r broses wedi mynd yn ei blaen yn hollol gywir. Ar hyn o bryd, mae'r cam y mae'r Cynllun Datblygu Lleol ynddo yn nwylo'r Arolygydd ac mae'r broses honno y tu allan i ddwylo'r Cyngor nes y bydd yn dod yn ôl ym mis Mawrth i gael ei fabwysiadu gan y Cyngor ac 'rwy'n hyderus y byddaf yma'r adeg hynny i'w gyflwyno gerbron y Cyngor."

**(4) Cwestiwn gan y Cynghorydd John Pughe Roberts**

"Y mae'r Cyngor wedi derbyn yr asesiad annibynnol hwn a gomisiynwyd gan fudiadau iaith. A ddylai'r asesiad gael ei gyflwyno i Arolygwyr y Cynllun Datblygu Lleol iddynt ei ddefnyddio ar eu disgresiwn eu hunain wrth archwilio'r Cynllun hwnnw?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Mae'r cynghorau eisoes wedi cyflwyno'r holl ddogfennaeth i'r Arolygydd. Yr Arolygydd erbyn hyn sy'n gyrru'r broses. Os ydi'r Arolygydd yn gofyn am ddogfennau eraill gan y Cyngor, 'rydym ninnau yn eu darparu. Yn wir, mae wedi gofyn ambell gwestiwn ynglŷn â beth sydd yn y cynllun ac mae'r gwasanaeth yn ymateb i hynny. Nid oes modd i'r Cyngor anfon unrhyw wybodaeth bellach ymlaen. Mater, wrth gwrs, i unrhyw wrthwynebwyr yw penderfynu os ydynt hwy am yrru unrhyw wybodaeth ymlaen i'r Arolygydd ynglŷn ag unrhyw wrthwynebiad maent hwy eisoes wedi ei roi i mewn."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd John Pughe Roberts**

"Ydi'r Aelod Cabinet yn cytuno bod pob gwybodaeth yn hanfodol bwysig fel tystiolaeth i wella sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio**

"Ydi, siŵr iawn. Mae'r holl dystiolaeth sydd allan yna ar gael i'r Arolygydd pan fydd yr Arolygydd yn edrych ar y cynllun. Gwaith yr Arolygydd ydi penderfynu os yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn gadarn ac os yw'r Arolygydd eisiau mwy o wybodaeth gan unrhyw

un sydd wedi bod ynghlwm â'r broses hyd yn hyn, mi fydd yr Arolygydd yn gofyn am yr wybodaeth honno."

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2015/16**

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2015/16.

Yn ei chyflwyniad, rhoddodd y Cyfarwyddwr drosolwg o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd dros y flwyddyn a fu, gan amlygu'r elfennau hynny sydd wedi bod yn llwyddiannus, a chyfeirio hefyd at rai materion sydd angen sylw. Rhoddodd flas hefyd ar gyfeiriad y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r dyfodol gan amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Manteisiodd ar y cyfle hefyd i gydnabod arweiniad a chefnogaeth yr Aelodau Cabinet yn y maes gofal, y Cynghorwyr W.Gareth Roberts a Mair Rowlands. Diolchodd i'r holl staff, y darparwyr a'r partneriaid am eu hymrwymiad a'u gwaith caled wrth sicrhau fod plant, pobl ifanc ac oedolion bregus a'u teuluoedd yn derbyn y gwasanaethau gorau bosib'. Diolchodd hefyd i bawb sydd yn gofalu yn anffurfiol am aelod o'r teulu neu am gymydog, gan nodi bod eu cyfraniad yn amhrisiadwy.

Yn dilyn y cyflwyniad, ymatebodd y Cyfarwyddwr i gyfres o gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau mewn perthynas â:-

- Chynlluniau i gwrdd â'r prinder nyrsys gofal dementia dwys yn Ne Meirionnydd.
- Y diffyg gwasanaethau / problemau gyda'r gwasanaethau yn Ne Meirionnydd a sut i gyfarch y problemau hynny yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ohoni.
- Cynlluniau i sicrhau bod y garfan o blant sydd ag anghenion cymhleth iawn, ond ddim yn derbyn gwasanaeth gan Derwen na'r Cyngor, yn derbyn y gefnogaeth briodol.
- Siomedigaeth nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at drefniadau'r Cyngor er sicrhau bod oedolion hefo awtistiaeth yn derbyn gwasanaethau digonol. Nododd y Cyfarwyddwr nad oedd yn ymarferol cynnwys popeth yn yr adroddiad, ond y byddai'n derbyn y sylw ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Pwysigrwydd y gwaith ataliol yn y maes cyfiawnder ieuenctid a'r angen i ddatgan siomedigaeth y Cyngor, drwy'r Aelod Cabinet, yn y partneriaethau statudol am leihau'r ariannu sydd ar gael ganddynt i gynnal y gwasanaeth.
- Nifer y plant sy'n gorfod mynd allan o Wynedd i dderbyn gofal. Nododd y Cyfarwyddwr nad oedd yn siŵr o'r union ffigurau, ond y gallai eu rhannu gyda'r aelod ar ôl y Cyngor.
- Yr angen i aelodau sy'n llywodraethwyr ysgolion roi sylw i ddiogelu yn eu cyfarfodydd llywodraethwyr a'r gwaith da i godi ymwybyddiaeth holl staff y Cyngor am y maes diogelu a'r angen i barhau i wneud hynny.
- Yr amser mae'n gymryd i drawsffurfio'r gwasanaethau.
- Effaith yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth ar forâl a throsiant staff.
- Sut i gyfarch y don arall o fewnlifiad fydd yn digwydd, os bydd amod 50 o Gytundeb Lisbon yn cael ei wireddu, wrth i bobl ddychwelyd adref o'r cyfandir er mwyn parhau i dderbyn triniaeth feddygol am ddim.
- Y sôn diweddar fod pobl ag afiechyd meddwl sy'n cyfeirio eu hunain am driniaeth i sefydliad lleol yn cael eu troi i ffwrdd. Nododd y Cyfarwyddwr na allai ateb y sylw penodol ond y gallai drafod y mater gyda'r Bwrdd Iechyd petai'r aelod yn dod ag enghreifftiau iddi.
- Trefn gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r broses apêl. Nododd y Cyfarwyddwr y gallai rannu'r dogfennau hyn gyda'r aelodau.

- Y gwaith sy'n digwydd yn y maes trwyddedu i sicrhau cyfrifoldeb gyrwyr tacsis dros blant maent yn eu cludo. Nododd y Cyfarwyddwr ei bod yn derbyn y sylw.
- Trefniadau staffio'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar benwythnosau a'r angen i sicrhau nad yw cleifion yn cael eu rhwystro rhag symud yn gynt o ysbyty, neu i ysbyty.
- Cwestiwn a ofynnwyd eisoes i'r adran ynglŷn â demograffi. Cytunodd y Cyfarwyddwr i gael yr wybodaeth i'r aelod.

Nododd yr Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden fod yna lawer o ddatblygiadau cyffrous ac arloesol yn digwydd o ran y maes ataliol, ac y bwriedid adeiladu ar hynny i'r dyfodol. Diolchodd i staff yr adran gan nodi ei bod yn gyfnod anodd iawn ac yn faes anodd iawn i weithio ynddo a bod y staff yn aml yn mynd y tu hwnt i'w rôl er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel a theuluoedd bregus yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Oedolion a Iechyd i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad cynhwysfawr ac eglur o'r sefyllfa sydd ohoni. Nododd y bydd y Ddeddf Iechyd a Llesiant, fydd yn gosod cyfeiriad i'r gwaith i'r dyfodol, yn golygu newid mawr iawn ac erfyniodd ar ei gyd-aelodau i bresenoli eu hunain yn y gyfres o ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan yr adran i amlygu'r newidiadau a goblygiadau'r ddeddf.

Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr a'i staff am eu holl waith yn ystod y flwyddyn.

**6. RHYBUDDION O GYNNIG**

(a) Nododd y Cynghorydd Annwen Hughes, yn wyneb y farchnad ariannol bresennol a chanlyniad refferendwm yr UE, ei bod am dynnu ei chynnig yn ôl gan fod angen iddi ail-edrych ar y mater.

(b) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Mandy Williams-Davies o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar fanc HSBC i ail ystyried eu penderfyniad i gau eu canghennau ym Mlaenau Ffestiniog, Abermaw a Thywyn, gan ddatgan ein pryder am yr effaith negyddol ar fusnesau a thrigolion yn y trefi allweddol yma o'r sir."**

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Siomedigaeth ynglŷn â diffyg cyswllt y banc â'r dref ynglŷn â'u bwriad.
- Ei bod yn destun pryder pan mae gwasanaethau yn dechrau gadael prif drefi'r sir heb gynllun tymor hir.
- Er bod dulliau pobl o fancio yn newid, bod gan y banciau ddyletswydd i'r gymuned ac y dylent feddwl sut maent am gynnal gwasanaethau a moderneiddio, ond heb ddiflannu'n llwyr o'r trefi gwledig.
- Bod y banciau yn gwrando ar eu cyfranddalwyr yn hytrach na'u cwsmeriaid.
- Gall methu bancio arian yn lleol arwain at fusnesau yn gorfod cau.
- Bod angen i'r Cyngor fynd at HSBC i drafod gyda meddyliau agored ac awgrymiadau positif.

Cynigiwyd ac eiliwyd i ychwanegu at y cynnig bod y Cyngor hwn yn estyn gwahoddiad i fanc HSBC am drafodaeth ar y mater.

Cytunodd cynigydd y cynnig gwreiddiol i ddiwygio'r cynnig ar y llinellau a nodwyd gyda chaniatâd y Cyngor a'r eilydd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig diwygiedig, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig gwreiddiol, wedi'i addasu fel a ganlyn:-**

**"Bod Cyngor Gwynedd yn:-**

**(a) Galw ar fanc HSBC i ail ystyried eu penderfyniad i gau eu canghennau ym Mlaenau Ffestiniog, Abermaw a Thywyn, gan ddatgan ein pryder am yr effaith negyddol ar fusnesau a thrigolion yn y trefi allweddol yma o'r sir.**

**(b) Estyn gwahoddiad i fanc HSBC am drafodaeth ar y mater.**

Ar ddiwedd y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gyflwyno unrhyw faterion i'w cynnwys yng nghyhoeddiadau'r Cadeirydd mewn da bryd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y digwyddiadau canlynol:-

- Ras yr Iaith – 6 – 8 Gorffennaf;
- Rali Cymru Rydd yn Ewrop – 2 Gorffennaf, Y Maes, Caernarfon am 12.00yb.

Diolchwyd i Llew ac Elin, fu'n arsyllu'r cyfarfod hwn a chyfarfod o'r Cabinet, er mwyn cael blas o waith y Cyngor.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.15 y.h.

**CADEIRYDD**

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 6 Hydref 2016 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2015/16 |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo'r adroddiad yn ddarlun cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2015/16, a'i fabwysiadu. |
| **AWDUR** | Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dyfed Edwards,<br>Arweinydd y Cyngor |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r adroddiad |

## 1.0 CEFNDIR

1.1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano. Rydym wedi cyfarch hyn drwy gyhoeddi Cynllun Strategol y Cyngor 2013-17.

1.2 Mae'r broses o fod yn atebol dros berfformiad yn digwydd mewn dau gam:

Cam 1 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella, gan gynnwys cyfres o amcanion gwella (ein Cynllun Strategol).

Cam 2 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi asesiad o berfformiad yng nghyswllt eu cynlluniau a'u hamcanion gwella (Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2015/16).

1.3 Cyflwynir yma Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015/16, sydd yn adrodd ar berfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

1.4 Gofynnir i awdurdodau gyhoeddi'r asesiad o'u perfformiad o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref y flwyddyn ariannol ganlynol.

1.5 Yn unol â'r gofynion, mae angen i'r Cyngor sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor.

## 2.0 Y CYNNWYS

2.1 Mae'r adroddiad yn seiliedig ar berfformiad gwasanaethau'r Cyngor ac adroddiadau ar berfformiad a gyflwynwyd gan Arweinyddion Prosiect, sy'n rhoi sylw i gyrhaeddiad yn erbyn Cynllun Strategol y Cyngor 2013-17 (ein hamcanion gwella).

2.2 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys atodiad data sy'n mesur ein cynnydd yn erbyn mesurau perfformiad allweddol y Cyngor a'r Mesurau Strategol Cenedlaethol (NSIs).

2.3 Defnyddir y delweddau yn yr adroddiad i baratoi fersiwn gryno sydd yn rhoi sylw i'r prif faterion yn weledol a hawdd i'w ddarllen. Trefnir hysbysu'r cyhoedd o'r adroddiad drwy gyfryngau arferol y Cyngor, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol.

2.4 Ystyriwyd yr adroddiad gan y Fforwm Craffu yn ei gyfarfod ar 28 Gorffennaf 2016, a gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016. Mae'r adroddiad a gyflwynir yn ymgorffori addasiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfodydd hynny.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2015/16, a'i fabwysiadu.

# Adroddiad Perfformiad

## Cyngor Gwynedd 2015/16



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.llyw.cymru/perfformiad

# Mynegai

**Cynnwys** | **Tudalen**


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair Arweinydd y Cyngor | 2 |
| Ein Gwariant | 4 |
| Barn y Panel Trigolion | 5 |
| Her Gwynedd | 6 |
| **Plant a Phobl Ifanc** | **7** |
| **Diogelu** | **10** |
| **Gofal** | **12** |
| **Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai** | **14** |
| **Y Gymraeg** | **16** |
| **Yr Amgylchedd** | **18** |
| **Cyngor Effeithiol ac Effeithlon** | **20** |
| **Cynllunio Ariannol** | **21** |
| Atodiad Data | |


## Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol,
Cyngor Gwynedd,
Swyddfa'r Cyngor,
Stryd y Jêl,
Caernarfon
Gwynedd,
LL55 1SH

E-Bost: perfformiad@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn: 01286 679661

**I gael copi o'r ddogfen hon mewn print Bras, Braille, ar dâp neu mewn iaith arall, cysylltwch â Hawis Jones ar 01286 679661**

Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu

# Rhagair Arweinydd y Cyngor



Dyfed Edwards, **Arweinydd y Cyngor**

Pwrpas yr adroddiad blynyddol hwn yw crynhoi perfformiad Cyngor Gwynedd am y flwyddyn 2015/16 yn glir a chytbwys. Mae'n dda felly medru dweud fod perfformiad y Cyngor wedi aros yn gadarn dros y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf yr amgylchiadau ariannol presennol.

Rydym wedi parhau i wella ein trefniadau i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud wrth i ni, fel Cyngor, geisio dangos arweiniad ond hefyd wrth inni weithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau. Un enghraifft o hynny yw'r ffordd rydym wedi cynnwys pobl Gwynedd drwy 'Her Gwynedd' cyn gwneud y penderfyniadau y bu'n rhaid eu gwneud i dorri £4.9miliwn oddi ar gyllidebau ein gwasanaethau. Canlyniad y gwaith hwn oedd i ni gytuno â chanran uchel iawn o ddewisiadau a wnaed gan bobl Gwynedd wrth geisio gosod ein cyllideb eleni.

Mae ein gwaith i wella a sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysg yng Ngwynedd yn parhau â'r perfformiad yn gryf, gyda 89% yn gadael yr ysgol gyda phump TGAU A*-C. Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd, yn enwedig mewn pynciau megis Mathemateg a Saesneg. Mae'r gwaith o sicrhau ysgolion hyfyw ac arweinyddiaeth addas yn datblygu, ac mae agor Ysgol Bro Llifon yn ystod y flwyddyn wedi golygu gwell amgylchedd dysgu a chwarae i blant o ddydd i ddydd.

Rydym wedi parhau i gydweithio gyda'n partneriaid fel y Byrddau Iechyd er mwyn ymateb i'r sialensau sydd yn ein hwynebu i'r dyfodol yn y maes gofal a iechyd ac wrth inni dreialu ffordd newydd o weithio yn ardal Eifionydd. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid er mwyn darparu ein gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol i blant a'u teuluoedd, gyda 88% o deuluoedd a dderbyniodd wasanaeth gan y Tîm Gyda'n Gilydd wedi gweld cynnydd neu welliant yn eu bywydau.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau ar gyfer y tymor byr, rydym yn ofalus i gynllunio ar gyfer y tymor hir hefyd. Mae sicrhau buddsoddiad yn ein cymunedau gwledig yn allweddol i greu ffyniant economaidd-cymdeithasol. Rydym felly yn falch iawn o weld buddsoddiad o £1.5miliwn yn Llanbedr sydd yn rhan o Barth Menter Eryri. Bydd creu Canolfan Ragoriaeth ar y safle yn fodd i sicrhau oddeutu 200 o swyddi newydd i'r ardal yma.

Yn dilyn cyflwyno trefn lwyddiannus yn Nwyfor o gasglu gwastraff gweddilliol (y bin gwyrdd) yn 2014/15, ymestynnwyd y drefn i ardaloedd Meirionnydd ac Arfon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi gosod sylfaen dda ar gyfer y dyfodol drwy gwrdd â'r targed cenedlaethol o 58% o wastraff yn cael ei ail-ddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio.

Mae'n galonogol hefyd nodi fod Gwynedd wedi bod yn arwain y ffordd yn genedlaethol gyda phrosiect y Siarter Iaith a'r ymdrech i gynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant ysgolion cynradd.  Mae llwyddiant y gwaith yng Ngwynedd wedi golygu y bydd y cynllun rŵan yn cael ei ledu dros Gymru. Rydym hefyd yn cymryd camau i ymestyn y gwaith pwysig hwn i'r sector uwchradd.


Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi neges gadarnhaol inni eleni yn ogystal drwy ddweud fod y Cyngor wedi parhau i wella yn ei feysydd blaenoriaeth a bod gennym drefniadau rheoli ariannol cadarn, gyda rhai gwendidau yn ein trefniadau craffu.  Rydym wrthi yn trafod newidiadau er mwyn cryfhau ein trefniadau craffu i'r dyfodol.

Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2016/17 yn dangos ein bod yn parhau i fod ag uchelgais ar gyfer ein sir a'n bod yn benderfynol o geisio gwneud gwahaniaeth i fywydau trigolion Gwynedd.  Ein nod yw parhau i gyfarch heriau a chyfleon y dyfodol er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory, ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda thrigolion Gwynedd a phartneriaid eraill yn ystod y cyfnod nesaf.

Dyfed Edwards, **Arweinydd y Cyngor**

# Ein Gwariant

Dyma faint a wariwyd gan ein hadrannau ar wasanaethau i bobl Gwynedd yn 2015/16:



# Barn y Panel Trigolion

Gofynnwyd i 701 o bobl leol sy'n aelodau o Banel Trigolion Gwynedd i roi marc allan o ddeg ar y tri chwestiwn yma:

**1.** Yn gyffredinol sut ydych chi'n teimlo am **eich ardal leol** fel lle i fyw?

**91%** (marc rhwng 6 a 10)

4% (marc o 5)

4% (marc rhwng 1 a 4)

**2.** I ba raddau mae **Cyngor Gwynedd** yn cwrdd â'ch hanghenion chi?

**83%** (marc rhwng 6 a 10)

11% (marc o 5)

6% (marc rhwng 1 a 4)

**3.** Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael cyfle priodol i ddylanwadu ar y gwasanaethau **Cyngor Gwynedd** rydych chi'n eu defnyddio?

**69%** (marc rhwng 6 a 10)

12% (marc o 5)

18% (marc rhwng 1 a 4)

**Beth fyddai'n codi eich marc i 10?**

Gofynnwyd y cwestiwn hwn i'r ymatebwyr a roddodd farc o lai na 10. Bydd y sylwadau a dderbyniwyd yn cael eu defnyddio gan y Cyngor i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae pobl leol sy'n cytuno i fod yn aelodau o Banel Trigolion Gwynedd yn cael cyfle i ddweud eu dweud ar wasanaethau lleol. Os hoffech chi fod yn aelod o'r panel, gallwch gofrestru drwy ymweld â www.gwynedd.llyw.cymru/PanelTrigolion neu drwy ffonio 01766 771000.

# Her Gwynedd




## Fe ddaru ni holi ...

Gwahoddwyd pobl leol i ddweud eu dweud ar 118 o opsiynau posib ar gyfer torri gwasanaethau er mwyn arbed arian a chau'r bwlch ariannol enfawr sy'n wynebu'r Cyngor oherwydd toriadau yn y grant gan y Llywodraeth.

## Fe wnaethoch chi...

Derbyniwyd **2,142** holiadur gan 2064 unigolyn busnes 78

Yn ogystal daeth **615** ohonoch i un o'r **32** sesiwn galw heibio neu fforwm cyhoeddus.

## Fe ddaru ni wrando, ymateb a gweithredu...

Yn dilyn y broses o holi a gwrando, penderfynodd cynghorwyr i gymeradwyo **49** o doriadau gwasanaeth. Roedd **41** o'r **49** toriad a gymeradwywyd yn cyd-fynd â'ch barn chi.

**Fe ddywedoch chi...** eich bod chi eisiau i'r Cyngor wneud pob ymdrech i weithio'n fwy effeithlon er mwyn cyfyngu ar yr angen am doriadau.

**Fe ddaru ni...** gynnal adolygiad manwl o holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn gwireddu £6.4miliwn o arbedion effeithlonrwydd, gyda £9miliwn yn ychwanegol i ddilyn.

**Fe ddywedoch chi...** ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn amddiffyn y sector fusnes a thwristiaeth, y gwasanaeth lyfrgelloedd, y celfyddydau a diwylliant, adfywio cymunedol a chlybiau a sefydliadau ieuenctid.

**Fe ddaru ni ...**

**1.** Beidio â chynnwys pedwar cynnig fyddai wedi cael effaith sylweddol ar y sectorau lleol pwysig yma o'r rhestr doriadau i'w gweithredu.
**2.** Benderfynu peidio cyflwyno unrhyw doriadau ychwanegol i'r gwasanaeth llyfrgelloedd.
**3.** Beidio â chynnwys y cynnig i ddileu Gwasanaeth Adfywio Cymunedol y Cyngor o'r rhestr toriadau i'w gweithredu.
**4.** Benderfynu gwireddu arbedion drwy ail-broffilio'r Gwasanaeth Ieuenctid yn hytrach na'i dorri.

# Plant a Phobl Ifanc




Mae gosod sylfeini i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael yr un cyfleoedd, ac yn derbyn yr un safon dda o addysg wedi parhau yn flaenoriaeth yn ystod 2015/16. Rydym yn parhau gyda'r ymrwymiad o wella a sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysg sydd yn cael ei chynnig i holl blant a phobl ifanc y sir, lle bynnag y bônt yn byw.

Mae seiliau ein Strategaeth Ansawdd Addysg, a'r trefniadau cadarn sydd wedi'u gosod rhwng y Cyngor a Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (GwE) wedi dechrau dwyn ffrwyth dros y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu mewn canlyniadau arholiadau yn ystod y flwyddyn. Mae mesurau perfformiad Gwynedd yn gyffredinol dda ar draws y Cyfnodau Allweddol (CA). Mae'r perfformiad yn dda iawn yn CA3 (11-14 oed) gyda 91.3% o bobl ifanc yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae ein perfformiad yn parhau i fod yn gryf erbyn diwedd CA4 gyda bron pob disgybl yn gadael yr ysgol gydag achrediad ar ddiwedd CA4 (14-16 oed), a 89% yn gadael yr ysgol gyda 5 TGAU A*-C, a 98% yn gadael yr ysgol gyda 5 TGAU D-G, sy'n golygu bod Gwynedd ar y brig yn genedlaethol. Er hyn, mae dal lle i wella, gyda mwy o waith i gysoni ar draws ysgolion a phynciau. Yr her fwyaf sy'n ein hwynebu yw gwella perfformiad mewn Mathemateg a Saesneg.




Gwelwyd cynnydd yng nghanran presenoldeb ysgolion uwchradd eto, gyda 94.6% yn rhoi Gwynedd yn gydradd ail uchaf yng Nghymru. Ar y llaw arall, gostyngodd y ffigwr ar gyfer presenoldeb disgyblion cynradd i 95%. Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar dargedu ysgolion penodol er mwyn gwella presenoldeb. Yn ogystal, mae ffigyrau gwaharddiadau parhaol yn yr ysgolion cynradd wedi bod yn destun pryder eleni. Am y tro cyntaf, mae rhai o'r ysgolion wedi gwahardd plant yn barhaol. Mae'n fwriad gennym i roi sylw i hyn yn ystod y flwyddyn nesaf trwy gychwyn darpariaeth arbenigol o fewn ysgolion er mwyn cynnal y disgyblion mwyaf dwys yn ymddygiadol ac yn emosiynol.




Mae sylw penodol wedi'i roi i wella ansawdd arweinyddiaeth o fewn y gyfundrefn addysg er mwyn codi safonau yn ystod y flwyddyn. Mae'r pecyn cefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer arweinwyr a rheolwyr yn datblygu'n dda, gyda gwaelodlin wedi'i gosod o ran disgwyliadau ar gyfer y flwyddyn a thu hwnt. Hyd yma mae 27 o ddarpar arweinwyr o Wynedd wedi mynychu hyfforddiant, ac mae naw darpar bennaeth wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn cymhwyster proffesiynol cenedlaethol ar gyfer prifathrawiaeth yn ystod y flwyddyn gyda 100% o'r ymgeiswyr yn cymhwyso. Mae chwe darpar bennaeth wedi'u derbyn ar y rhaglen ar gyfer blwyddyn nesaf.

Rydym hefyd yn cyflwyno ein rhaglen rhwydwaith ysgolion hyfyw ar gyflymder da. Ym mis Medi 2015, agorwyd Ysgol Bro Llifon. Mae'r datblygiad yma wedi arwain at well amgylchedd i'r plant i gyd-weithio a chwarae gyda'u cyfoedion, ac wedi sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn. Mae cynnydd da wedi'i wneud gyda'r safleoedd eraill yn ogystal, gyda safle Hafod Lon y nesaf i'w agor yn ystod tymor yr hydref 2016. Mae gwaith ar y gweill yn ardal y Gader, Glancegin a'r Berwyn, gyda buddsoddiad o £56miliwn yn y rhaglen ysgolion hyfyw.




Rydym yn y broses o weddnewid y ddarpariaeth ar gyfer oddeutu 4,000 o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Ngwynedd. Yn wyneb y newid deddfwriaethol a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru, ac yn dilyn cyfnod o ymgynghori, mae cynllun a rhaglen waith o welliannau wedi'u cadarnhau ar gyfer y gwasanaeth newydd. Cynhaliwyd cyfres o raglenni hyfforddiant yn ystod y flwyddyn drwy raglenni e-ddysgu i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol pob ysgol sy'n canolbwyntio ar gynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u rhoi yn ganolog. Bydd gwaith pellach yn y flwyddyn i ddod ar fesur effaith y gwasanaeth newydd o'r cychwyn.




Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn rydym wedi llwyddo i wella lefelau gweithgarwch corfforol plant a phobl ifanc. Yn yr ysgolion, mae'r lefel o blant sydd wedi gwirioni gyda chwaraeon wedi cynyddu. Mae canlyniadau Gwynedd yn dangos bod 52% o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o 43% yn 2013, gyda'r defnydd o ganolfannau hamdden ymysg y gorau yng Nghymru, a hynny er gwaethaf i ni weld lleihad yn y Grant Nofio am Ddim gan y Llywodraeth. Yr her yn ystod y flwyddyn sydd i ddod yw cynnal a gwella ar y canlyniadau yma.

Rydym wedi bod yn paratoi yn ystod y flwyddyn tuag at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru sydd bellach wedi dod i rym ers mis Ebrill 2016. Mae'r ddeddf yn canolbwyntio ar yr angen i ddatblygu agwedd ataliol ym mhopeth y byddwn yn ei wneud. Mae hybu lles plant trwy fuddsoddi mewn gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar yn greiddiol i weledigaeth y Cyngor. Er mwyn trefnu ein gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol o amgylch materion penodol sy'n wynebu Gwynedd, rydym wedi cynnal asesiad o anghenion teuluoedd. Mae'r gwaith yma yn ein galluogi i adnabod bylchau ac anghenion penodol a gwella'r ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig i'r person ifanc.

Er bydd gwaith yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn nesaf i gadarnhau a blaenoriaethu gwasanaethau ataliol i'r dyfodol, mae'r Cyngor wedi darparu pecyn o raglenni ymyrraeth gynnar ac ataliol trwy arian grant Teuluoedd yn Gyntaf, yn ogystal ag arian craidd y Cyngor. Mae'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar a ddarperir yn cynnwys rhaglenni rhiantu, blynyddoedd cynnar, yn ogystal â gwaith gyda theuluoedd a phlant sydd mewn perygl o gael eu cymryd i ofal. Un o'r rhaglenni hynny yw Gyda'n Gilydd.

Mae 88% o'r teuluoedd sydd â'u hachosion wedi eu cau yn dilyn derbyn gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu yn ystod y flwyddyn yn adrodd cynnydd ar ôl derbyn gwasanaeth. Gwelwyd canran y cynnydd a wnaethpwyd gan deuluoedd ar gyfartaledd yn dod i 25.8%. Mae hyn yn ostyngiad ers y llynedd gan bod nifer y ceisiadau dwys wedi cynyddu.




**o deuluoedd sydd wedi derbyn gwasanaeth Tîm Gyda'n Gilydd wedi gweld cynnydd neu welliant yn eu bywydau**

Mae peth risg i'r elfen yma o'r gwasanaeth gan nad oes gwarant bydd y grant sy'n cyllido'r gwaith yn parhau ar ôl Ebrill 2017, ac fe fydd angen, yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, canolbwyntio ar sut y gellir cynnal y gwasanaeth i'r dyfodol.

Sefydlwyd Tîm Trothwy Gofal yn ystod y flwyddyn, sydd yn ddatblygiad cyffrous a phwysig sy'n mynd i drawsnewid profiad i blant a theuluoedd. Pwrpas y tîm ydi gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin mynd i ofal. Mae'r tîm wedi derbyn 73 o gyfeiriadau yn ystod y flwyddyn ac wedi llwyddo i osgoi costau gofal o bron i £300,000 yn y flwyddyn gyntaf. Mae'r datblygiad yn cael ei weld yn ymarfer da, ac yn ystod y flwyddyn, cafodd y gwasanaeth wahoddiad i gyflwyno gwaith y tîm mewn cynhadledd genedlaethol oedd yn cyflwyno datblygiadau newydd ym maes plant mewn gofal.

# Diogelu

Mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion bregus yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae pwyslais wedi bod ar sicrhau fod trefniadau'r maes hwn yn gadarn, a'n bod yn sylweddoli ein cyfrifoldeb personol am y diogelu.

Mae trefniadau statudol rhanbarthol yn eu lle ar gyfer y maes hwn. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod trosolwg o'r heriau ar draws yr asiantaethau, a thrwy'r Bwrdd Rhanbarthol y mae'r adolygiadau yn dilyn digwyddiadau anffafriol yn cael eu comisiynu. Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau hyn yn cael eu rhaeadru ar draws y rhanbarth ac yn ehangach pan ac os yn berthnasol. Un o brif amcanion y drefn hon yw dysgu gwersi o ddigwyddiadau, a sicrhau bod unrhyw ddiffygion mewn ymarfer neu brosesau yn cael sylw.

**100%** o'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus â gwiriad troseddu cyfredol

Disclosure & Barring Service

Mae ein mesurau ym meysydd oedolion a phlant yn awgrymu perfformiad cadarn eto yn 2015/16. Gwelwyd ein bod, o'r holl atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, wedi llwyddo i reoli'r perygl 97% o'r amser.




Ni lwyddwyd i reoli'r perygl 100% o'r amser fel yn 2014/15 gan fod y 3% sy'n weddill wedi gwrthod ymyrraeth neu wedi tynnu'r cais yn ôl. Mae perffomiad y mesur hwn yn gyson gyda gweddill Cymru (97% yn 2015/16), a'r teulu (96% yn 2015/16) o gynghorau tebyg i Wynedd. Yn benodol o ran plant, mae'r gyfradd asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i gynadleddau achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau yn awgrymu perfformiad cadarn eto - 97% yn 2015/16 o'i gymharu â 98% yn 2014/15.


Mae'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion bellach yn ei le er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a gwella perchnogaeth ar draws y Cyngor o'r maes pwysig hwn, ac hefyd monitro gweithrediad rhai o'r prosiectau trawsffurfiol yn y maes. Yn ystod y flwyddyn mae'r panel wedi cytuno i ychwanegu'r agenda "PREVENT" at eu maes gwaith. Hon yw'r rhaglen sydd yn cael ei harwain gan y Swyddfa Gartref ac sy'n ymwneud â cheisio atal unigolion rhag cael eu radicaleiddio.

Mae ymdrechion yn parhau o ran gwella ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor ond, fel llawer i brosiect, mae'n debyg mai'r elfen o fesur effaith ein hymyrraeth sydd fwyaf heriol. Er mwyn ceisio ymateb i hyn mae Grŵp Tasg wedi ei sefydlu ar gyfer creu trefn i fesur effaith cydymffurfio gyda a mabwysiadu'r polisi, y gwaith o godi ymwybyddiaeth ac effaith yr hyfforddiant ar ddiogelu. Bydd hyn yn flaenoriaeth ar gyfer 2016/17.

Mae enghreifftiau wedi bod yn ystod y flwyddyn o staff rheng flaen, yn sgil gwell dealltwriaeth o ddiogelu, sydd wedi adnabod materion diogelu ac wedi gweithredu trwy wneud cyfeiriad. Cynhaliwyd Awdit Ymwybyddiaeth yn ystod y flwyddyn ac mae'r canlyniadau yn dangos fod cynnydd wedi bod yn lefelau ymwybyddiaeth staff ar draws y Cyngor o ran materion diogelu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym fel Cyngor wedi bod, gymaint ag sydd bosib, yn deall y galw am wasanaeth a thueddiadau Ecsploetio Plant yn Rhywiol yng Ngwynedd. Rhan allweddol o hyn yw gweithredu'r rhaglen waith ranbarthol gan ystyried y goblygiadau corfforaethol sy'n deillio ohoni. Bydd codi ymwybyddiaeth a llunio rhaglen waith leol i ymateb a sicrhau cydymffurfiaeth â'r disgwyliadau yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Eto yn y maes plant, mae llawer o waith wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn cryfhau gweithdrefnau a diwylliant diogelu o fewn y maes addysg. Mae rhaglen waith glir yn cael ei gweithredu er mwyn sicrhau fod ysgolion Gwynedd yn gwbl glir o'u cyfrifoldebau yn y maes. Penodwyd Swyddog Diogelu i'r Adran Addysg ym mis Medi er mwyn gyrru'r rhaglen waith yn ei blaen ac mae cryn dipyn o sylw wedi ei roi i adolygu a mabwysiadu polisïau, hyfforddi staff a chytuno ar strategaeth sirol.

Ymdrechwyd yn ystod y flwyddyn hefyd i wella yn barhaus y trefniadau a'r diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion. Er bod nifer o'r argymhellion sydd ynghlwm â rhaglenni gwaith y maes wedi cael eu gweithredu, mae gwaith pellach i'w wneud er mwyn cael trefn adrodd glir sydd yn sicrhau trosolwg llawn o'r gwaith. Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd argymhellion gan yr Arolygaeth Gofal bod angen i ni gryfhau ein trefniadau mewnol o ran gweithredu diogelu yn y maes oedolion yn benodol er mwyn ymateb i ofynion newydd. Mewn ymateb i hyn, ac yn sgil newidiadau deddfwriaethol, mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi adolygu'n llawn eu trefniadau gweithredol ac yn ystyried y ffordd ymlaen.




Er yn ddyddiau cynnar i ddechrau gweld effaith uniongyrchol prosiectau'r maes hwn ar drigolion Gwynedd, hyderwn y bydd canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol.

# Gofal




Mae'r maes gofal oedolion wedi bod yn paratoi ei strwythurau dros y flwyddyn at newidiadau deddfwriaethol, yn ogystal hefyd â newid ymarfer proffesiynol. Bu i Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 ddod yn weithredol yn Ebrill 2016.

Er yn heriol o ran newid diwylliant a strwythurau gwaith, mae wedi bod yn gyfnod cyffrous ble rydym wedi treialu ffordd newydd o weithio sydd yn ceisio cynnig gwasanaeth o'r ansawdd gorau drwy ymateb i flaenoriaethau pobl yn fwy effeithiol. Mae gweithio'n integredig gyda'r Bwrdd Iechyd a'n partneriaid yn cynnig cyfleodd i drawsffurfio ein gwasanaethau er gwell, a sicrhau fod oedolion yn cael cefnogaeth un gweithiwr dynodedig i gydlynu'r gofal. Mae hefyd yn golygu arbenigeddau yn cael eu tynnu i mewn lle bo angen. Ar hyn o bryd mae'r trefniadau newydd yn weithredol yn ardal Eifionydd yn unig a bydd yn flaenoriaeth i ddatblygu'r ffordd newydd o weithio ar draws y sir yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r pwyslais wedi bod ar roi'r unigolyn yn ganolog i'n gwasanaethau ac mae hynny i'w weld o ran y pwrpas newydd sydd wedi ei osod, sef - 'Helpu fi fyw fy mywyd fel dwi eisiau'.


Er mwyn cyflawni hyn mae'n hanfodol fod cysylltiadau naturiol yr unigolyn yn cael eu defnyddio a'n bod yn hyrwyddo eu llesiant. Rhan allweddol o sicrhau fod y gefnogaeth yma ar gael yn ein cymunedau yw'r angen i wella dealltwriaeth pobl Gwynedd o'r ffordd y gall cymunedau gefnogi pobl i fyw yn hirach yno. Er bod peth llwyddiant wedi bod o ran y rhaglen ymgysylltu sydd wedi bod i staff ac aelodau etholedig, mae gwaith pellach i'w wneud o ran dechrau mynd allan i drafod hefo cymunedau. Bydd hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Er mwyn helpu unigolion i fyw eu bywydau fel ag y maent eisiau, mae'n hanfodol ein bod yn gallu cynnig yr opsiynau lletya amrywiol ar draws y sir sy'n diwallu anghenion ein trigolion. Mabwysiadwyd Strategaeth Lletya Pobl Hŷn yn ystod y flwyddyn a bydd yn cael ei defnyddio i drafod datblygiadau ac opsiynau gyda datblygwyr yn y dyfodol. Bydd y budd o ganlyniad i'r prosiect eto i'w weld yn llawn ond bydd ei weithredu yn cyfrannu at sicrhau fod gennym y ddarpariaeth addas yn y mannau priodol ar gyfer pobl hŷn yn y sir. Yn rhan o hyn, mae gwaith wedi dechrau o ran adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog, a phenderfynu datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu ar safle Frondeg yng Nghaernarfon.




Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf un o'r prif faterion sydd wedi peri pryder ydi sefydlogrwydd a chynaliadwyedd ein cartrefi nyrsio ar draws y Sir. Bu nifer o gartrefi mewn sefyllfa anodd ac mae hyn yn amlygu pa mor fregus yw'r sector. Mae'r gyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio hefyd, gyda chynnydd o 1.05% yn 2014/15 i 2.38% yn 2015/16. Er hyn, o'i gymharu â Chymru gyfan, mae perfformiad Gwynedd yn parhau'n dda, ond rhaid cydnabod bod dirywiad.

Mae argymhellion y craffwyr fel rhan o'u hymchwiliad 'O'r Ysbyty i'r Cartref' wedi cefnogi'r gwasanaeth wrth gynllunio a chydweithio gyda'i bartneriaid er mwyn goresgyn rhwystrau yn y maes yma.





Mae'r perfformiad hwn yn adlewyrchu materion cyffredinol yn y system iechyd a gofal o ran galw uchel ar yr ysbytai, diffyg gwlâu nyrsio yn y gymuned a hefyd prinder capasiti o ran gweithwyr proffesiynol a gofalwyr cartref mewn rhai ardaloedd penodol o Wynedd. Yn dilyn o hyn mae'r gyfradd 'adolygu cynlluniau gofal' yn dangos dirywiad o 85% yn 2013/14 i 79% erbyn 2015/16. O ddadansoddi'r ffigwr hwn ymhellach fesul ardal gwelir bod perfformiad Meirionnydd yn sylweddol is na rhannau eraill o Wynedd. Mae'r dirywiad hwn yn amlygu eto'r prinder capasiti amlwg mewn rhai ardaloedd ac o ganlyniad wedyn y blaenoriaethu sydd wedi gorfod digwydd.

Mae'n gyfnod anodd a heriol yn ogystal o ran costau darparu gwasanaethau. Mae'r sefyllfa ariannol yn rhoi pwysau ar draws y sector ac rydym ar y cyd hefo'n partneriaid yn ceisio ymateb yn rhagweithiol i'r sialensau sydd, ac a fydd yn ein hwynebu i'r dyfodol.

Mewn ymateb i'r argyfwng hwn, comisiynodd y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2016 brosiect newydd - 'Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd'. Pwrpas y prosiect yw ceisio ymateb i broblemau cyfredol o ran darpariaethau gofal ac iechyd o fewn y maes pobl hŷn yn benodol. Drwy gyflawni'r prosiect, ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, byddwn yn ceisio sicrhau fod gennym y gyfundrefn addas mewn lle ar draws y maes gofal ac iechyd i'r dyfodol, ac yn enwedig ar gyfer ymateb i heriau penodol Meirionnydd.

Ar y cyfan mae'r mesurau perfformiad yn awgrymu fod y gwasanaeth ar y trywydd cywir. Mae gostyngiad i'w weld yng nghyfran y bobl sydd yn dewis derbyn cefnogaeth draddodiadol yn y gymuned a hefyd yn ein cartrefi preswyl. Mae hyn yn awgrymu ein bod yn dibynnu llai ar ofal traddodiadol o'i gymharu â'r blynyddoedd cynt. I gefnogi hyn mae twf graddol hefyd yn y defnydd o daliadau uniongyrchol sydd wrth gwrs yn hybu ac yn grymuso unigolion i fyw bywydau fel y maent hwy eisiau ei fyw. Mae adborth gan rai o'n defnyddwyr gwasanaeth wedi profi fod ein dull newydd o weithio yn un cadarnhaol iawn.



# Tlodi, Amddifadedd, Economi a Tai

Mae'r her sy'n wynebu economi Gwynedd yn fawr. Mae strwythur yr economi yn parhau i fod yn gul, efo'r cyfleon gwaith yn parhau i fod yn or-ddibynnol ar y sector gyhoeddus. Mae materion megis cyflogau isel a'r angen i sicrhau cysylltedd priodol a gweithlu gyda'r sgiliau perthnasol yn bethau allweddol sydd angen canolbwyntio arnynt.

Gan nad ydi rôl y sector breifat yn gryf mewn ardal wledig ei natur fel Gwynedd, mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a phartneiriad eraill i ddenu buddsoddiad i'r ardal. Mae'r gwaith i ddenu buddsoddiadau i safleoedd Trawsfynydd a Llanbedr wedi cynnal momentwm yn ystod y flwyddyn, gyda ffocws clir ar ddenu adweithydd bychan i Drawsfynydd, ac ar ddatblygu canolfan awyrofod yn Llanbedr. Mae rhaglen i ddatblygu'r safle maes awyr yn Llanbedr yn ganolfan o bwys Prydeinig a rhyngwladol, ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i hwyluso a datblygu'r safle yn faes gofod masnachol gan y sector breifat. Yn ogystal, mae gwaith lobïo sylweddol wedi'i wneud i ddenu arian cyhoeddus i wella mynediad i'r safleoedd hyn ac i ddatblygu'r is-adeiledd perthnasol.

Yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i ddenu £1.5miliwn o fuddsoddiad i greu canolfan ragoriaeth ar gyfer awyrennau di-beilot. Bydd y gwaith o ddatblygu'r safleoedd hyn yn parhau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'n rhy fuan i weld effaith y buddsoddiadau yma ar drigolion a busnesau Gwynedd, ond mae'r gwaith yn gosod sylfeini cadarn sy'n mynd i ddenu buddsoddiadau trawsffurfiol i'r ardal dros y pum mlynedd nesaf, gyda'r potensial o greu oddeutu 200 o swyddi.

Rydym yn parhau i ddatblygu rhaglen swyddi gwerth uchel trwy sicrhau cefnogaeth i ddenu a datblygu busnesau o fewn sectorau sy'n cynnig gwerth uchel, sef swyddi gyda chyflog o dros draean yn fwy na chyfartaledd y sir. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i werthu potensial Gwynedd i ddatblygwyr preifat yn y sectorau hyn, ac o ganlyniad wedi llwyddo i greu 35 o swyddi gwerth uchel yn enwedig yn y sector ddigidol.

Rydym hefyd yn parhau i ddenu digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol sy'n deillio o hynny. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd buddsoddiad o £5.9miliwn i'r economi o ganlyniad i'r digwyddiadau hyn.





Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn ystod y flwyddyn i ddarparu seilwaith bandeang ar draws y sir. Mae'r Rhaglen Cyflymu Cymru yn 83% yn gyflawn yng Ngwynedd a bellach mae 51,839 o gartrefi a busnesau yn gallu derbyn bandeang cyflym. Mae Gwynedd wedi arwain y ffordd yng Nghymru drwy ddwy raglen beilot ar gyfer datblygu'r dull o gefnogi busnesau i wneud gwell defnydd o dechnoleg i fasnachu. Yn ystod y flwyddyn, treialwyd sesiynau gyda 50 o fusnesau Gwynedd ac mae 7,000 o fusnesau Gwynedd wedi derbyn gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael iddynt. Yn y flwyddyn nesaf byddwn yn canolbwyntio ar gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cynllun cenedlaethol i gefnogi busnesau yn parhau i gwrdd ag anghenion busnes Gwynedd.

Rydym hefyd wedi llunio Strategaeth Trechu Tlodi yn ystod y flwyddyn, sydd yn canolbwyntio ar ddwy brif flaenoriaeth tlodi gofodol, sef y cymunedau hynny sydd yn dioddef fwyaf o ran tlodi, a thlodi poblogaeth, sef rhai grwpiau o'r boblogaeth e.e. aelwydydd un rhiant sydd ag incwm isel. Byddwn yn canolbwyntio ar roi'r strategaeth ar waith a datblygu ymyraethau penodol i dargedu'r grwpiau penodol hyn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Trefnwyd sesiynau llythrennedd digidol a sesiynau cymorth technoleg gwybodaeth i ddefnyddwyr llyfrgell ar draws y sir.

Yn ogystal, derbyniwyd cyllideb o £620,483 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwneud Taliadau Tai Dewisol yn ystod y flwyddyn, a ffurfiwyd Polisi Tai Dewisiol o ganlyniad. Defnyddiwyd yr arian yma i gefnogi 1,409 o aelwydydd i liniaru'r effaith a achoswyd gan ystod o ddiwygiadau lles y Llywodraeth. Bu gwelliant hefyd yn nifer y dyddiau a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Gostyngiadau Treth Cygnor o 20 diwrnod yn 2014/15 i 16 diwrnod yn 2015/16.




Mae cynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau bod ein cyflenwad tai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd achos busnes model ariannu tai fforddiadwy. Mae'n rhy fuan i weld effaith y gwaith yma, ond i'r dyfodol, disgwylir bydd y gwaith sydd gennym dan sylw yn galluogi mwy o bobl Gwynedd i brynu tai fforddiadwy, ac yn ein galluogi i roi llety i unigolion digartref a chyfrannu at anghenion lletya pobl hŷn y sir. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gwerthfawrogi cyfraniad y craffwyr i ddatblygu'r gwasanaeth digartrefedd. Roedd eu gwaith yn gyfle i gynnig her, chwalu ambell i gamsyniad a chadarnhau mai gwasanaeth yw i bobl Gwynedd.




Mae'r Cyngor yn prynu canran mawr o'i nwyddau a gwasanaethau gyda busnesau lleol gyda hyn yn werth dros £64miliwn i'r economi leol. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi canolbwyntio ar drefnu adnoddau mewnol i brynu nwyddau a gwasanaethau (caffael) o fewn meysydd penodol er mwyn prynu'n fwy arloesol ac effeithlon. Sefydlwyd y drefn ar gyfer maes categori 'Pobl' yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd wedi bod yn rhagweithiol gyda chymalau buddion cymdeithasol mewn cytundebau adeiladau cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Wrth adeiladu Ysgol Bro Llifon, sicrhawyd bod 55% o is-gontractau wedi'u hennill gan gytundebwyr yng Ngwynedd. O ganlyniad, cynigwyd wythnosau o brofiad gwaith i fyfyrwyr lleol, a chrewyd swyddi gan gytundebwyr lleol.

Mae'r Cyngor Llawn wedi gofyn i'r Cabinet i ddwysau eu hymdrechion i gadw'r budd yn lleol yn ystod y flwyddyn nesaf gan gydweithio hefo, a grymuso cwmnïau bach lleol i allu cystadlu am dendrau.

Mae sicrhau cefnogaeth i unigolion bregus fynd i waith neu hyfforddiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i ddenu £1.5miliwn o arian Ewrop i weithredu pecyn o ymyraethau i gefnogi plant a phobl bregus trwy brosiect TRAC 11-16 oed. Trwy'r cynllun yma, cafodd 190 o bobl ifanc gefnogaeth arbenigol a phrofiadau dysgu perthnasol. Yn ogystal, gwelwyd bod ffigyrau pobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn 1.8%, sy'n cyfateb i 24 person ifanc. Yn ystod y cyfnod nesaf, y gobaith yw targedu 480 o bobl ifanc bregus a chynnig cymorth iddynt o ran derbyn cymhwyster, derbyn hyfforddiant neu fynd i addysg a gweithredu pecynnau o weithgareddau fydd yn cyfrannu tuag at leihau ein canran o bobl ifanc NEET.

# Y Gymraeg

Mae Gwynedd wedi bod yn gadarnle i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg erioed, ond gwelwyd gostyngiad graddol yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd gostyngiad o 846 yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd, sef -3.5% o'i gymharu gyda Chyfrifiad 2001.

Mae yna amryw o resymau yn milwrio yn erbyn defnydd y Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac er mwyn ceisio ymateb i'r sefyllfa rydym wedi bod yn cydweithio hefo pedair cymuned (Porthmadog, Bangor, Dolgellau a Talysarn) er mwyn hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y cymunedau hynny. Cynhaliwyd 24 o weithgareddau gyda 866 o fynychwyr yn cael profiad cadarnhaol o ddefnyddio'r iaith. Er bod adborth yn awgrymu fod yr unigolion a fynychodd y digwyddiadau wedi cael profiad positif trwy gyfrwng y Gymraeg, amser a ddengys os y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r iaith o fewn y cymunedau dan sylw.




Ar hyn o bryd ceir anghysondeb yn y ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol pan yn cyfathrebu hefo cyrff cyhoeddus. 'Rydym wedi cael cytundeb gan gyrff cyhoeddus Gwynedd i gymryd rhan mewn prosiect i osod safonau cyson ac eglur ynghylch darpariaeth gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond nid yw'r gwaith wedi symud ymlaen cystal ag y byddent yn dymuno a byddwn yn gwthio'r prosiect ymhellach yn ystod y flwyddyn i ddod.


Dros y flwyddyn nesaf bydd angen gwneud gwaith pellach i sefydlu beth yw'r sefyllfa bresennol o fewn y sefydliadau a gweithredu ar y cyd ar gynlluniau fydd yn gwella profiad y defnyddiwr trwy gynnig gwasanaeth yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod gofyn amdano.

Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc a sefydlu gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa, rydym wedi sefydlu darlun o'r sefyllfa bresennol o safbwynt y defnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc Blwyddyn 7 yn holl ysgolion uwchradd Gwynedd. Yn ogystal, mae cyfres o sesiynau i godi ymwybyddiaeth a hyder pobl ifanc yn eu defnydd cymdeithasol o'r iaith wedi eu cynnal mewn meysydd megis chwaraeon a cherdd.

hunaniaith
Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd
Promoting the Welsh Language in Gwynedd

Yn dilyn sefydlu gwaelodlin ynghylch defnydd cymdeithasol y Gymraeg mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd fel rhan o brosiect y Siarter Iaith a dilyn rhaglen weithredu, nodir bod 75% o ysgolion cynradd yn dangos bo'r disgyblion wedi cynnal neu ddangos cynnydd yn nefnydd cymdeithasol yr iaith. Bydd angen gwneud gwaith pellach yn y flwyddyn nesaf i ddatblygu ein gallu i ddadansoddi defnydd disgyblion unigol o'r iaith.

Er bod Cyngor Gwynedd ar flaen y gad wrth ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith fyw, mae angen i ni sicrhau fod hynny'n ddigwydd yn gyson ar draws ein holl wasanaethau. Mae yna waith cychwynnol wedi ei wneud felly i asesu'r sefyllfa a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma i gau unrhyw fylchau yn ein darpariaeth iaith Gymraeg.




Plant
Diogelu
Gofal
Economi
Y Gymraeg
Amgylchedd
Cyngor
Ariannol

# Yr Amgylchedd




Mae gan Wynedd amgylchedd naturiol o safon uchel ac mae yna nifer o heriau o geisio sicrhau ein bod yn gwarchod yr amgylchedd honno ond ar yr un pryd yn sicrhau nad ydym yn llesteirio gallu ein trigolion i fyw a ffynnu o fewn y sir.

Ers rhai blynyddoedd bellach mae pwyslais wedi ei roi ar yr angen i leihau ein dibyniaeth ar dirlenwi gwastraff gan waredu ein gwastraff mewn ffordd fwy amgylcheddol gyfeillgar trwy gynyddu lefelau compostio ac ailgylchu.

Yn dilyn cyflwyno trefn i leihau amlder casglu gwastraff gweddilliol (y bin gwyrdd) yn ardal Dwyfor i bob tair wythnos yn ystod 2014/15 bu i ni ymestyn y drefn i ardaloedd Meirionnydd ac Arfon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ymroddiad trigolion a busnesau'r sir i leihau eu gorddibyniaeth ar waredu gwastraff i'w dirlenwi wedi chwarae rhan allweddol i wella ein perfformiad ac erbyn hyn mae 58.70% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ail ddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio. Golyga hyn ein bod wedi cwrdd â'r targed cenedlaethol o 58% ac wedi dangos cynnydd o dros 12% ers 2011/12.

Mae busnesau Gwynedd hefyd wedi cyfrannu gyda chyfraddau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio masnachol wedi cynyddu bron i 6% o 35.45% ar ddiwedd 2014/15 i 41.44% yn 2015/16.

Eto, dylid cymharu hyn gyda'r 17% oedd yn digwydd yn 2011/12.




Byddwn yn parhau i weithredu'r Strategaeth Wastraff yn y dyfodol gyda'r bwriad i ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 64% o'r gwastraff o'n cartrefi erbyn 2020.

Mae glendid ein strydoedd yn fater sydd o bwys i bobl Gwynedd a gwelwyd safonau glendid ein strydoedd yn parhau i wella gan sgorio 76.26 allan o 100 o'i gymharu â 71.88 yn 2012/13.



Caiff allyriadau carbon yng Ngwynedd effaith niweidiol ar yr amgylchedd leol yn ogystal â chyfrannu tuag at effeithiau newid yn yr hinsawdd ar lefel byd eang. Er mai dim ond bychan iawn yw cyfraniad y Cyngor, mae'n bwysig ein bod yn chwarae ein rhan trwy leihau ein hallyriadau carbon ar lefel briodol.

Trwy leihau defnydd o ynni yn ein hadeiladau, goleuadau stryd, uwchraddio goleuadau, gosod paneli solar a lleihau teithiau busnes rydym wedi llwyddo i leihau ein ôl troed carbon o 26.20% ers 2005 ac wedi llwyddo i gyflawni arbedion ariannol cronnus o £3.09miliwn ers cychwyn gwireddu'r cynllun. Mae hyn yn golygu fod pobl Gwynedd yn cael budd yn amgylcheddol ac o'r arbedion ariannol.







Yn ystod y flwyddyn, fe lwyddwyd i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn fydd yn gosod y fframwaith ar gyfer ceisiadau cynllunio i'r dyfodol. Er y bu ychydig o lithriad yn yr amserlen fe lwyddwyd i'w anfon am archwiliad cyhoeddus a bydd Arolygwr o'r Arolygaeth Cynllunio yn ystyried cadernid y cynllun yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae ein perfformiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio yn parhau yn dda gyda 82.30% yn cael eu penderfynu o fewn yr wyth wythnos o'i gymharu gyda 76.44% y llynedd.

# Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

Er gwaethaf y wasgfa ariannol, amcan y Cyngor yw gwneud yn siŵr fod yr adnoddau sydd gennym yn cael eu defnyddio i roi'r budd mwyaf i bobl Gwynedd.

Dros y flwyddyn diwethaf mae gwaith wedi parhau i geisio sicrhau diwylliant cyson ar draws y Cyngor o roi pobl Gwynedd yn ganolog trwy hyrwyddo'r egwyddorion ymysg y staff, cynnal adolygiadau o fewn unedau gwasanaeth a gweithredu rhaglen ar gyfer datblygu arweinwyr.

Er bod newid ymddygiad o fewn sefydliad mawr megis y Cyngor yn cymryd amser a'i bod rywfaint yn gynamserol i fesur yr effaith, dengys tystiolaeth gychwynnol o rai o'r adolygiadau fod y gwaith wedi arwain at ddarparu gwasanaeth gwell mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon.



Byddwn yn parhau i roi sylw i roi pobl Gwynedd yn ganolog yn ystod 2016/17 drwy newid diwylliant, datblygu arweinwyr a chyflawni mwy o adolygiadau o fewn unedau gwasanaeth.

Fel rhan o brosiect i edrych ar gyfundrefn perfformiad y Cyngor, mae unedau gwasanaeth erbyn hyn yn gyson yn ceisio sicrhau eu bod yn mesur y pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Golyga hyn y byddwn yn canolbwyntio ar wella perfformiad y mesurau hyn yn y dyfodol.

Fel rhan o'r prosiect Ymgysylltu sy'n anelu i wella ymgysylltu ar draws y Cyngor, cynhaliwyd ymgynghoriad 'Her Gwynedd'. Bu'r ymgynghoriad yn gyfle i bobl Gwynedd gyfrannu'n uniongyrchol i'r gwaith o flaenoriaethu gwasanaethau a wnaeth yn ei dro ddylanwadu ar y toriadau a gymeradwywyd o fewn Strategaeth Ariannol y Cyngor. Cafwyd dros 2,100 o ymatebion ac er y gellid ystyried hynny yn ymateb bychan am bwnc mor bwysig, o'i gymharu gydag ymatebion i ymgynghoriadau cyffelyb o fewn y sector gyhoeddus 'roedd yn galonogol iawn.

Yn ogystal, fe sefydlwyd trefn newydd i fesur bodlonrwydd pobl Gwynedd gyda'r sir a gwasanaethau'r Cyngor gan roi cyfle iddynt nodi beth fyddai'n gwella eu bodlonrwydd. Bydd cyfle i holl drigolion Gwynedd ymateb i arolwg a datgan eu bodlonrwydd yn 2016/17.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae sylw wedi ei roi i wella ein trefniadau er mwyn diogelu data a gwybodaeth trwy gynnal sesiynau hyfforddi a chyflwyno gweithdrefnau newydd. Mae'n gynamserol i asesu effaith y gwaith ar hyn o bryd ond y disgwyliad maes o law yw y bydd yn arwain at gryfhau ymhellach ein trefniadau diogelu gwybodaeth sensitif.


Yn yr oes fodern, mae'n well gan nifer gysylltu am wasanaeth drwy ddefnyddio technoleg a'i wneud felly ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy 'Rydym wedi dechrau cynllun i hwyluso mynediad pobl Gwynedd at wasanaethau'r Cyngor trwy ddefnyddio cyfryngau digidol yn ogystal â'r ffyrdd mwy traddodiadol. Eto, dyddiau cynnar yw hi a byddem wedi gobeithio bod ymhellach ymlaen gyda'r cynllun yma ond 'rydym yn hyderus y bydd yn datblygu dros y blynyddoedd i ddod.

Plant
Diogelu
Gofal
Economi
Y Gymraeg
Amgylchedd
Cyngor
Ariannol

# Cynllunio Ariannol


Mae'r toriadau yn yr arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn golygu fod angen inni ddygymod hefo llai o arian i gynnal ein gwasanaethau. Roeddem wedi adnabod y gallai'r bwlch ariannol dros gyfnod bedair blynedd hyd at 2017/18 fod gymaint â £50miliwn, ac o ganlyniad rydym wedi bod yn edrych ar ffyrdd i gadw effaith yr arbedion ar bobl Gwynedd i'r lleiafswm posib, gan geisio parhau i gyflawni mwy yn y meysydd hynny sydd o flaenoriaeth.

Mae'n allweddol felly ein bod yn cadw o fewn y gyllideb ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu i ni lwyddo i gadw o fewn £304,000 (neu -0.0013) i'r gyllideb.




Un o brif lwyddiannau'r flwyddyn yw bod mwy o arbedion effeithlonrwydd wedi eu gwireddu, gan osgoi torri gwasanaethau i bobl Gwynedd. Bu i ni wireddu cynlluniau gwerth £6.575miliwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf trwy newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, gan gynnal neu wella safon y gwasanaeth i'r trigolion ar yr un pryd. Mae gwaith pellach i'w wneud ar rai cynlluniau er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein cynlluniau yn unol â'n haddewidion.

**Arbedion Strategaeth Ariannol**




Yn ychwanegol, mae gennym raglen i ddarganfod a datblygu rhagor o effeithlonrwydd sy'n anelu i sicrhau cyn lleied o doriadau gwasanaeth â phosib. Ar hyn o bryd mae amrediad o gynlluniau effeithlonrwydd yn cael eu datblygu er mwyn cyfarch y targed o £7.25miliwn o effeithlonrwydd pellach sydd wedi ei osod fel rhan o Strategaeth Ariannol 2015/16 i 2019/20.

Yn anffodus, oherwydd y lleihad mewn grant gan y Llywodraeth, mae'n anorfod ein bod yn gorfod torri rhai gwasanaethau. Er mwyn sicrhau fod pobl a busnesau Gwynedd yn cael cyfle i nodi beth yw eu blaenoriaethau, bu i ni gynnal ymgynghoriad 'Her Gwynedd' a chymeradwyo cyfres o doriadau gwerth £4.9miliwn oedd yn seiliedig ar ymateb y cyhoedd a busnesau. Byddwn yn symud ymlaen i wireddu'r toriadau hyn yn 2016/17 a 2017/18.

Ffordd arall o sicrhau fod y cynilo ariannol yn cael yr effaith lleiaf bosibl ar bobl Gwynedd yw trwy ddenu arian ychwanegol. O ganlyniad i gytuno i gyflawni cyfres o ganlyniadau hefo Llywodraeth Cymru, a llwyddo i gyrraedd neu wneud yn well na'r uchelgais yn ystod y flwyddyn, bu i ni dderbyn taliad o £1.284miliwn. Mae hyn yn cyfrannu at Strategaeth Ariannol y Cyngor.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Plant a Phobl Ifanc

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adn28 | Canran y llefydd gweigion yn ysgolion y sir | 28 | 26 | 25 | Gwella | - | - | - |
| CSP3 | Canran y cynnydd a wnaed gan deuluoedd yn dilyn ymyrraeth y Tîm o Amgylch y Teulu, Tîm Gyda'n Gilydd | 15 | 30.8 | 25.3 | Gwaethygu | - | - | - |



**Sylw**
Mae canran y cynnydd wedi lleihau, oherwydd bod natur y teuluoedd rydym yn gweithio gyda hwy wedi mynd yn llawer mwy cymhleth ac yn uwch yn y continwwm o angen. Rydym yn delio llawer llai gydag achosion sydd angen ymyrraeth gynnar ac yn delio yn hytrach gydag achosion sydd wedi bod yn destun pryder i sawl asiantaeth ers sawl blwyddyn.

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DANS08 | Canran disgyblion 15 oed sydd yn ennill Trothwy Lefel 2 (5 gradd A* - C TGAU) neu gyfatebol | 81.55 | 87.7 | 88.9 | Gwella | - | - | - |
| DGD17 | Canran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (NEET) | 3 | 1.7 | 1.8 | Gwaethygu | - | - | - |

**Sylw**
Ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru parthed y grŵp NEET yng Ngwynedd ar gyfer 2015 yw 1.8%, sydd yn gyfanswm o 24 o bobl ifanc. Mae cynllun strategol y Cyngor yn cyfarch hyn.

# Plant a Phobl Ifanc



| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/008aN | Nifer o waharddiadau parhaol yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd | 0 | 0 | 3 | Gwaethygu | - | - | - |

**Sylw**
Am y tro cyntaf, bu gwaharddiadau parhaol yn y sector cynradd.  Un o brosiectau penodol y strategaeth i newid y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol yw gosod trefniadau newydd ar gyfer y ddarpariaeth cynnal ymddygiad.

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/008bN | Nifer o ddisgyblion a waharddwyd yn barhaol yn yr uwchradd yn y flwyddyn academaidd | 4 | 4 | 3 | Gwella | - | - | - |
| EDU/016a | Canran presenoldeb yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd | 94.3 | 95.1 | 95.0 | Gwaethygu | 95.0 | 94.7 | Cyson |

**Sylw**
Yn ystod blwyddyn addysgol 2014/15 gostyngodd presenoldeb disgyblion o fewn y sector gynradd 0.1% i 95%. Yn genedlaethol cynyddodd y ffigwr 0.1% i 94.9%.  Mae presenoldeb ysgolion cynradd Gwynedd wedi disgyn o'r 5ed safle yn 2013/14 i'r cydradd 8fed safle drwy Gymru. Mae 8 o ysgolion yn chwartel isaf am y 3 blwyddyn yn olynol gyda'r ysgolion yma yn cael eu targedu er mwyn gwella eu presenoldeb.  Mae 15 ysgol wedi llwyddo i aros yn y chwartel cyntaf dros dreigl tair blynedd. Yn 2014/15, llwyddodd 26 ysgol i gyrraedd y chwartel uchaf.

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/016b | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd | 93.6 | 94.2 | 94.6 | Gwella | 93.9 | 93.5 | Gwell |

# Plant a Phobl Ifanc

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/021 | Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | 94.3 | 93.8 | 91 | Gwaethygu | - | - | - |

**Sylw**
Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi llwyddo i gynnal 599 o adolygiadau yn 2015/16. O'r rhain roedd 544 wedi eu gwneud o fewn yr amserlen statudol. Wrth gymharu hyn gyda 2014/15 lle cafodd 544 o adolygiadau eu cynnal gyda 510 ohonynt ar amser, mae'r swyddogion wedi llwyddo i ymateb i alw lle'r roedd 10% o gynnydd yn y nifer o adolygiadau i'w cyflawni yn y flwyddyn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cynnydd o 7% fu yn niferoedd plant mewn gofal ers Mawrth 2015, gyda 207 o blant mewn gofal ar 31 Mawrth 2016.



| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/025 | Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 83.7 | 89 | 86.9 | Gwaethygu | 88.1 | 88.0 | Gwaeth |

**Sylw**
Mae cynnydd o 14% yn y nifer o ymweliadau statudol sydd wedi eu cynnal dros y tair blynedd diwethaf gyda 1852 o ymweliadau wedi eu gwneud yn 2015/16 a 1619 wedi eu gwneud yn 2013/14. Tra bod perfformiad wedi gostwng rywfaint yn 2015/16, mae'r galw am ymweliadau statudol yn parhau i gynyddu. Yn 2015/16 roedd 42% o blant a ddaeth i ofal y Cyngor wedi eu lleoli gartref gyda rhieni neu gyda theulu. Mae'r plant yma yn cael ymweliadau wythnosol o'i gymharu â phob 6 wythnos i blant sydd mewn lleoliadau eraill.

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/039 | Canran yr asesiadau iechyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn | 35.8 | 50.6 | 60 | Gwella | - | - | - |
| SCC/041b | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt | 100 | 100 | 100 | Cynnal | - | - | - |

# Plant a Phobl Ifanc

**Mesurau Strategol Cenedlaethol**

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/002i | Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol) sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | 0.0 | 0.1 | 0.2 | Gwaethygu | 0.2 | 0.1 | Cyson |
| **Sylw**<br>Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n gadael addysg lawn heb gymhwyster sydd ddim yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant wedi cynyddu o 1 i 2 disgybl. | | | | | | | | |
| EDU/002ii | Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol,sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | 6.3 | 0.0 | 0.0 | Cynnal | 0.5 | 0.0 | Gwell |
| EDU/003 | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 86.6 | 86 | 89.5 | Gwella | 88.1 | 89.2 | Gwell |
| EDU/006ii | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith Gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | 82.5 | 81.2 | 83.2 | Gwella | 17.8 | 35.3 | Gwell |

# Plant a Phobl Ifanc



| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/011 | Cyfartaledd y sgor pwyntiau ar gyfer y disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdodau lleol | 578 | 616 | 617 | Gwella | 539 | 523 | Gwell |
| EDU/015 (a) | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | 43.1 | 57.4 | 42.4 | Gwaethygu | 68.1 | 60.4 | Gwaeth |

**Sylw**
Mae perfformiad Cyngor Gwynedd a Môn yn parhau i fod yn isel yn y maes Anghenion Addysg Arbennig, sy'n gysylltiedig gyda materion chapasiti yng ngwasanaeth iechyd i asesu pobl ifanc yn Ysbyty Gwynedd. Yn dilyn yr adolygiad strategol lleol yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a newid deddfwriaethol ar lefel genedlaethol, rhagwelir newid sylweddol yn y drefn bresennol bydd yn ein caniatáu i ymateb yn fwy amserol i anghenion y disgyblion drwy drefn lai biwrocrataidd. Ni fydd y drefn newydd yn ddibynnol ar ymateb prydlon y gwasanaeth iechyd.

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/015 (b) | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau heb gynnwys eithriadau | 96.3 | 100 | 100 | Cynnal | 94.5 | 95.7 | Gwell |
| EDU/017 | Canran y disgyblion 15 oed ar 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y Trothwy Lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg | 58 | 61.1 | 63.3 | Gwella | 58.3 | 59.9 | Gwell |
| LCS/002b | Nifer o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1,000 y pen o'r boblogaeth | 12906 | 13790 | 10278 | Gwaethygu | 8409 | 8152 | Gwell |

# Plant a Phobl Ifanc

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylw** Mae perfformiad Gwynedd yn parhau yn dda yn genedlaethol, er y lleihad yn y nifer o ymweliadau i ganolfannau hamdden yn dilyn trosglwyddo pwll nofio Harlech i'r gymuned a chanolfan Bangor wedi cau am chwe mis i adnewyddu'r ganolfan. | | | | | | | | |
| SCC/002 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | 22.8 | 18.7 | 18.1 | Gwella | 11.9 | 12.3 | Gwaeth |
| SCC/004 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 4.9 | 6.2 | 7.7 | Gwaethygu | 9.8 | 9.9 | Gwell |
| **Sylw** Mae perfformiad o fewn yr uchelgais. 16 o blant fu mewn o leiaf tri lleoliad yn ystod y flwyddyn. | | | | | | | | |
| SCC/011b | Canran yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun | 47.2 | 50.6 | 59.1 | Gwella | 49.5 | 60.9 | Gwell |
| SCC/033d | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed | 100 | 85 | 80 | Gwaethygu | 93.2 | 91.3 | Gwaeth |
| **Sylw** Cohort bychan yn 2015/16 gyda 20 o bobl ifanc yn derbyn gwasanaeth ôl-ofal ac yn cael eu penblwydd yn 19 oed yn ystod y flwyddyn. Mae pedwar person ifanc wedi gwrthod cadw mewn cysylltiad â'r gwasanaeth yn y cyfnod amser penodol er bod pob ymdrech wedi ei wneud gan y gweithwyr cymdeithasol. | | | | | | | | |

# Plant a Phobl Ifanc

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/033e | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed | 86.7 | 88.2 | 93.8 | Gwella | 93.5 | 93.9 | Gwell |
| SCC/033f | Canran y bobl ifanc oedd yn arfer derbyn gofal ac mae'r awdurdod mewn cysylltiad a nhw, ac yn gwybod eu bod yn derbyn addysg, hyfforddiant neu sy'n gweithio pan yn 19 oed | 66.7 | 52.9 | 75 | Gwella | 60.7 | 65.2 | Gwell |
| SCC/037 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol | 439 | 428 | 456 | Gwella | 269 | 294.4 | Gwell |
| SCC/041a | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen | 100 | 100 | 100 | Cynnal | 93.5 | 98.0 | Gwell |

# Diogelu

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BUS07 | Canran holl staff Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant Lefel 1 mewn amddiffyn a diogelu | - | - | Trefniadau adrodd corfforaethol yn cael ei ddatblygu | - | - | - | - |
| Diogelu2 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | 95 | 97 | 97 | Cynnal | - | - | - |
| Diogelu7 | Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn (ac eithro plant o dan 7 oed) | 81 | 83 | 85 | Gwella | - | - | - |
| PEN14 | Canran o'r holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus sydd â gwiriad Disclosure and Barring Service (DBS) cyfredol | - | 100 | 100 | Cynnal | - | - | - |

# Gofal

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| OED03 | Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal | 54 | 45 | 55 | Gwella | - | - | - |
| SCA/002b LLEOL | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac eithrio rhai sy'n hunan ariannu | 20.1 | 18.5 | 17.1 | Gwella | - | - | - |

Tud. 46

**Mesurau Strategol Cenedlaethol**

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PSR/002 | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 242 | 316 | 271 | Gwella | 241 | 226 | Gwaeth |
| SCA/001 | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy’n 75 oed neu drosodd | 1.55 | 1.05 | 2.38 | Gwaethygu | 4.87 | 4.1 | Gwell |

# Gofal

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylw**
Mae'r gyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio'n sylweddol eleni - cynnydd o 1.05 yn 2014/15 i 2.38 eleni. Ymddengys fod yr oedi yn fwy o broblem yn y cyswllt gydag Ysbyty Tywyn a Dolgellau nag unrhyw le arall yng Ngwynedd, h.y. o'r 30 achos yn ystod y flwyddyn mae 16 o'r rheini yn ymwneud â'r ysbytai hyn. Er hyn, o'i gymharu â Chymru gyfan, mae perfformiad Gwynedd yn parhau'n dda (Gwynedd yw'r 6ed awdurdod gorau). Ar sail dadansoddiad dechreuol mae 66% o'r rhesymau dros oedi o ganlyniad i broblemau gofal cartref yn benodol, ac mae cynllun strategol y Cyngor yn cyfarch hyn.

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCA/002a | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd | 46.21 | 45.07 | 43.10 | Gwella | 64.12 | 53.6 | Gwaeth |
| SCA/002b | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 25.59 | 24.15 | 22.69 | Gwella | 18.02 | 18.1 | Gwaeth |
| SCA/019 | Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | 95.72 | 100 | 96.7 | Gwaethygu | 97 | 96.3 | Gwaeth |

**Sylw**
Ni lwyddwyd i reoli'r perygl 100% o'r amser fel y llynedd gan fod 3% sy'n weddill wedi gwrthod ymyrraeth neu wedi tynnu'r cais yn ôl.

# Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CAFF06d | Canran gwariant y Cyngor efo busnesau lleol | 40.33 | 40.42 | 38 | Gwaethygu | - | - | - |

**Sylw**
O ddadansoddi gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol, mae'r gostyngiad yn bennaf yn gysylltiedig ar ffaith bod darparwyr o du allan i Wynedd wedi llwyddo i ennill canran uchel o brosiectau sylweddol yn y maes adeiladwaith. Gwelwyd fod Wynne Construction (a leolir yn Ninbych) wedi ennill mwyafrif o'r contractau adeiladu "Ysgolion yr 21ain Ganrif" ac mae'r unig gwmni o Wynedd ar y fframwaith caffael wedi tynnu allan ac felly wedi eithrio eu hunain rhag cystadlu am waith drwy'r prosiect "Ysgolion yr 21ain Ganrif".



| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GD01 | Nifer cymuned (daearyddol/o ddiddordeb) yn defnyddio technoleg mewn ffordd newydd/arloesol | - | - | 5 | - | - | - | - |
| GD02 | Nifer o unigolion wedi derbyn cymorth i fynd ar-lein / defnyddio'r we er budd personol | - | - | 141 | - | - | - | - |
| HHA/008 | Canran y cyflwyniadau digartref sy'n cael eu penderfynu o fewn 33 diwrnod gwaith | - | 80.57 | Wedi ei ddileu yn genedlaethol | - | - | - | - |
| PENECON1 | Nifer swyddi wedi eu creu gyda chymorth y Cyngor | 123.5 | 234.5 | 81 | Gwaethygu | - | - | - |

**Sylw**
Gyda nifer o'r prif raglenni oedd yn cefnogi creu swyddi (megis y Gronfa Buddsoddi Lleol) bellach wedi dod i ben mae'r nifer o swyddi sydd wedi eu creu gyda chymorth uniongyrchol y Cyngor wedi gostwng yn unol â'r disgwyl; er hyn mae'r canlyniad o 81 o swyddi newydd wedi eu cefnogi yn arwyddocaol yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael yn bresennol.

# Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PENECON 2 | Nifer y busnesau wedi eu cefnogi yng Ngwynedd gan yr Adran Economi a Chymuned | 92 | 67 | 28 | Gwaethygu | - | - | - |

**Sylw**
Mae'r nifer o fusnesau sydd wedi eu cefnogi wedi gostwng oherwydd bod amryw o becynnau grant oedd wedi eu cynllunio i gefnogi busnesau wedi dod i ben.

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strat6 | Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd | 70 | 144 | 48 | Gwaethygu | - | - | - |

**Sylw**
Mae'r perfformiad yn sylweddol is o'i gymharu â'r llynedd (48 o'i gymharu â 144). Cyfeiriwyd arian Grant Tai Cymdeithasol i ddatblygu Hafod y Gest yn ystod 2015/16 ac roedd niferoedd yr unedau sy'n cael eu hadrodd ym mlwyddyn 2014/15 yn cynnwys 42 uned Cae Garnedd, sydd felly yn egluro'r amrywiaeth sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TMGC4 | Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | £4,666,662 | £4,814,867 | £5,928,034 | Gwella | - | - | - |
| Uchel07 | Nifer swyddi gwerth uchel wedi eu creu | - | 34 | 35 | Gwella | - | - | - |
| YRE1 | Nifer busnesau'r Sir yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg (e.fusnes/e.fasnachu) o ganlyniad i ymyrraeth *Gwynedd Ddigidol* | - | - | 36 | - | - | - | - |

# Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

**Mesurau Strategol Cenedlaethol**

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LCL/001 (b) | Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 5301 | 4199 | 4309 | Gwella | 5374 | 5520 | Gwaeth |
| PLA/006 (b) | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | 41 | 50 | 96 | Gwella | 36 | 34 | Gwell |
| PSR/004 | Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 5.24 | 5.70 | 5.13 | Gwaethygu | 11.08 | 6.8 | Gwaeth |

Tud. 50

**Sylw**
Er bod dirywiad bach yn y perfformiad, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gwrdd â'r uchelgais leol a dod â 61 o dai gwag yn ôl i ddefnydd. Mae’r gwasanaeth yn ceisio targedu a blaenoriaethu'r tai gwag hynny sydd mewn lleoliadau ble mae galw am eiddo cymdeithasol.

# Y Gymraeg

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iaith05 | Canran yr ysgolion cynradd sydd yn gallu dangos cynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg | - | - | 75 | - | - | - | - |
| Iaith13 | Canran yr ysgolion uwchradd sydd wedi sefydlu gwaelodlin o ddefnydd cymdeithasol pobl ifanc Blwyddyn 7 o'r Gymraeg | - | - | 100 | - | - | - | - |
| Iaith14 | Canran cyrff cyhoeddus Gwynedd a Môn sydd wedi mabwysiadu diffiniad safonol o weithle dwyieithog | - | - | Wedi'i ddileu oherwydd newid pwyslais yng nghyfeiriad y prosiect | - | - | - | - |

# Yr Amgylchedd

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM9a | Canran o sefydliadau bwyd sydd yn y system sy'n cyrraedd sgôr 4/5 safonau hylendid bwyd | 91 | 93 | 93 | Cynnal | - | - | - |

**Mesurau Strategol Cenedlaethol**



| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| STS/006 | Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith | 97.67 | 96.53 | 96.28 | Cynnal | 95.26 | 95.2 | Gwell |
| THS/007 | Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy’n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws | 84.6 | 80.3 | 79.0 | Gwaethygu | 85.6 | 77.3 | Gwaeth |
| **Sylw**<br>Perfformiad wedi dirywio 1% ers llynedd oherwydd lleihad o 148 yn y nifer o oedolion dros 60 oed sy'n dal tocyn bws ar 1 Ebrill. | | | | | | | | |
| WMT/004 (b) | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | 45.88 | 44.09 | 34.33 | Gwella | 18.14 | 19.5 | Gwaeth |
| WMT/009(b) | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | 54.01 | 55.14 | 58.70 | Gwella | 60.19 | 64.7 | Gwaeth |

# Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD6.01 | Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | 94 | 94 | 93 | Gwaethygu | - | - | - |

**Sylw**
Rydym wedi edrych ar berfformiad y mesur hwn ac wedi deall bod ffigyrau rhai adrannau yn effeithio ar berfformiad y mesur. Trafodwyd yr angen i ymateb i'r sefyllfa gan ddal adrannau yn atebol dros eu perfformiad. Fel cam cyntaf, bydd yr Aelod Cabinet yn codi'r mater hefo gweddill yr aelodau. Byddwn yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa er mwyn penderfynu a oes angen gweithredu ymhellach.

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CHR/002 | Nifer y diwrnodau/shifftiau gwaith wedi'u colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn | 8.2 | 8.62 | 8.44 | Gwella | 10.19 | 9.96 | Gwell |
| FfG01 | Canran o unedau busnes o fewn y Cyngor sydd wedi derbyn marc siartr Ffordd Gwynedd | - | - | Marc Siarter yn parhau i gael ei ddatblygu | - | - | - | - |
| FfG02 | Canran o fesurau a sefydlwyd wrth ddilyn trywydd Prosiect Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith sydd yn mynd i'r cyfeiriad disgwyliedig | - | - | Wedi ei ddileu. Dim yn fesur addas i'r prosiect | - | - | - | - |

# Cynllunio Ariannol

| Cyf. | Disgrifiad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Tuedd | Cymru (2015/16) | Teulu (2015/16) | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arb01 | Swm arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd fel canran o'r holl arbedion | 95.2 | 99.0 | 98.0 | Ddim yn berthnasol | - | - | - |
| CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | -0.0014 | -0.0018 | -0.0013 | Cynnal | - | - | - |
| DT3.1 | Swm arbedion a gyflawnwyd | £3,399,940 | £4,696,346 | £6,575,386 | Ddim yn berthnasol | - | - | - |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **6 HYDREF, 2016** |
| **PWNC** | **ADRODDIADAU BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU CRAFFU** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno adroddiadau blynyddol y Pwyllgorau Craffu** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |

1. Ar yr adeg hon, bod blwyddyn, rydym yn cyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgorau craffu i'r Cyngor llawn.

2. Mae'r adroddiadau gan y pwyllgorau unigol yn cyfeirio at y gwaith a ddigwyddodd yn y pwyllgorau craffu yn ystod 2015/16 a bydd y cadeiryddion dros y cyfnod hynny yn cyflwyno eu hadroddiadau yn unigol i'r Cyngor. Mae'r gwaith craffu yn rhan greiddiol a phwysig o'r drefn democrataidd. Mae'r adroddiadau hyn yn gyfle i ddeall a gwerthfawrogi gwaith y craffwyr a chydnabod y gwaith sydd yn digwydd

3. Mae ffurf yr adroddiadau fymryn yn wahanol eleni. Maent yn nodi yn fyr iawn yr holl eitemau sydd wedi cael sylw yn ystod y flwyddyn ond yn mynd i fwy o fanylder ar y meysydd hynny lle y mae'r craffwyr wedi rhoi sylw penodol ac wedi ychwanegu gwerth.

4. Carwn nodi, yn benodol, y gwaith da sydd yn digwydd yn yr ymchwiliadau craffu. Yn gyffredinol, maent yn esiampl da o gynghorwyr yn mynd i'r afael yn drylwyr â phwnc ac yn llunio argymhellion clir a phendant i Aelodau Cabinet eu hystyried.

5. Bydd aelodau yn gwybod bod prosiect ar y gweill ar hyn o bryd i edrych ar ein trefniadau craffu er mwyn paratoi at y Cyngor newydd ym Mai, 2017. Bydd yn allweddol bod unrhyw fodel newydd yn adeiladu ar gryfderau fel yr ymchwliadau a hefyd yn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau yn y trefniadau presennol. Byddwn yn trafod datblygiad y model craffu gyda'r aelodau i gyd dros y misoedd nesaf.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU

# CYNGOR GWYNEDD

# 2015/16

**A. Pwyllgor Craffu Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Y Cynghorydd Dyfrig Jones |
| Is-Gadeirydd | Y Cynghorydd Jason Humphreys |

**Cylch Gorchwyl**

- Strategaeth Corfforaethol
- Partneriaethau
- Ymgysylltu
- Trawsnewid Busnes
- Effeithlonrwydd Gwasanaethau
- Gwasanaethau Yfory
- Cytundeb Canlyniadau
- Gweithlu
- Gofal Cwsmer
- Hawl galw i mewn materion Pwyllgor Archwilio.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd dau Ymchwiliad Craffu ('Tai Gwyliau a Threthi' ac 'Ymgysylltu ar Her Gwynedd') a craffwyd yn ffurfiol ar 9 o eitemau eraill. Dyma restr ohonynt:-

- Strategaeth Gaffael 2014/15
- Strategaeth Ffordd Gwynedd
- Strategaeth Caffael Cyngor Gwynedd – Rheolaeth Categori a Chadw'r Budd yn lleol
- Cynnal a Chefnogi'r Gweithlu
- Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru)
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Gwynedd 2016-20
- Strategaeth Technoleg Gwybodaeth
- Trefn Gwynion y Cyngor Gwynedd Council
- Y budd i Wynedd o gadw'r dreth fusnes

Rhoddir manylion pellach ar waith ac argymhellion y ddau ymchwiliad a hefyd ar rai o'r prif faterion a dderbyniodd sylw yn y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:-

**1. Ymchwiliadau Craffu**

Bu gwaith ar ddau Ymchwiliad Craffu yn ystod y flwyddyn fel a nodir isod. Fodd bynnag, ni adroddwyd ar yr ymchwiliadau hyd Mehefin 2016, sef ar ol y flwyddyn adrodd. Gweler amlinelliad o'r ymchwiliadau isod, a gellir gweld yr adroddiadau terfynol ar y safle we:

| **CO 1 Ymchwiliad Tai Gwyliau a Threthi** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y craffwyr?</u><br><br>Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu mewn ymateb i gais gan yr Aelod Cabinet Adnoddau i edrych ar sefyllfa cynghorau eraill yng nghyd-destun trosglwyddiadau o gyfundrefn Treth Cyngor i gyfundrefn Trethi annomestig, gan chwilio am atebion ymarferol er mwyn delio â'r sefyllfa yng Ngwynedd gan atal neu arafu unrhyw drosglwyddo anaddas.<br><br>Er mwyn gallu dod i gasgliad, bwriad yr ymchwiliad oedd:<br>a) Deall y sefyllfa yng Ngwynedd a'i effaith |

| |
|---|
| b) Deall rôl a chyfrifoldebau Swyddfa'r Prisiwr a'u craffu<br>c) Deall rôl a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'u craffu<br>ch) Ymchwilio i'r sefyllfa mewn cynghorau eraill, gan gynnwys Lloegr, i weld os yw'r un problemau yn bodoli ac i weld os oes unrhyw wersi i'w dysgu ganddynt. |
| <u>Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau</u><br><br>Gweler yr adroddiad gyflwynwyd i bwyllgor Craffu Corfforaethol ar 16 Mehefin 2016<br><br><u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Er nas adroddwyd i'r Pwyllgor yn swyddogol hyd Mehefin 2016, sy'n dechnegol y tu allan i ffenestr amser yr adroddiad hwn, derbyniwyd pob un o'r argymhellion gan yr Aelod Cabinet. Yn ychwanegol, mae'r gwaith wedi esgor ar waith pellach fydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2016 ynghylch goblygiadau gosod premiwm ar y dreth Cyngor. |

| **CO2 Ymchwiliad Ymgysylltu ar Her Gwynedd** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y craffwyr</u><br><br>Penderfynwyd edrych ar ddarn penodol o waith ymgysylltu, a chraffu ar y gwaith hwnnw er mwyn gweld os oedd gwersi i'w dysgu i alluogi'r Cyngor i wneud yn well y tro nesaf, neu rannu gwersi o ymarfer da ar draws y Cyngor yn ei gyfanrwydd.<br><br>Y tro hwn, penderfynwyd cynnal y gwaith mewn modd gwahanol, a bu i'r Craffwyr weithio gyda'r Grwp Ymgysylltu wrth iddynt hwy gymeryd stoc o ymarferiad Her Gwynedd i weld pa wersi y gellid eu dysgu ynglŷn â threfniadau ymgysylltu'r Cyngor yn fwy cyffredinol. Cafwyd trafodaeth agored a gonest iawn am yr ymarferiad Her Gwynedd. |
| <u>Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Aelod Cabinet dros y maes ymgysylltu</u><br><br>Gweler yr adroddiad gyflwynwyd i bwyllgor Craffu Corfforaethol ar 16 Mehefin 2016<br><br><u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Er nas adroddwyd i'r Pwyllgor yn swyddogol hyd Mehefin 2016, sy'n dechnegol y tu allan i ffenestr amser yr adroddiad hwn, derbyniwyd pob un o'r argymhellion gan yr Aelod Cabinet. Cafwyd ymrwymiad clir i fod yn addasu ar gyfer gwaith ymgysylltu i'r dyfodol ac mae'n rhywbeth byw ar agenda'r Grwp Ymgysylltu. Yn ychwanegol mae'r gwaith wedi esgor ar waith pellach gan y craffwyr i edrych ar symylrwydd iaith wrth ymgysylltu. |

**2. Gwaith y Pwyllgor**

Nodir isod rai o'r prif faterion sydd wedi derbyn sylw yn y pwyllgorau craffu ffurfiol yn sytod y flwyddyn.

| **PCC1. STRATEGAETH CAFFAEL CYNGOR GWYNEDD: RHEOLAETH CATEGORI A CHADW'R BUDD YN LLEOL** |
|---|

| |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Mae'r Pwyllgor Craffu wedi edrych ar faes caffael nifer o weithiau dros y blynyddoedd diweddar gydag ymchwiliad i drefniadau caffael y Cyngor wedi ei gynnal.  Fel ffrwyth yr ymchwiliad hwnnw cyflwynwyd trefniadau 'rheolaeth categori' i'r Cyngor. |
| <u>Argymhellion</u><br><br>Ystyriwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Economi (Cynghorydd Mandy Williams-Davies) ar y datblygiad hyd yma wrth gyflwyno rheolaeth categori fel trefn newydd o gaffael yn y Cyngor, gan gynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd trwy brofiadau'r maes Gofal hyd yma.  Ystyriwyd hefyd yr elfen o gadw'r budd yn lleol wrth gaffael a pha gamau oedd yn cael eu cymryd i annog busnesau lleol i ddatblygu.<br>Penderfynodd y pwyllgor:-<br><br>• Nid oes tystiolaeth hyd yma os yw trefniadau rheolaeth categori yn rhagori ar y drefn flaenorol.  Dylid monitro cynnydd ar y strategaeth gaffael drwy'r pwyllgor hwn ymhen 6 mis, ac yn rheolaidd wedi hynny.<br>• Nodi pryder ynglŷn ag effaith unrhyw doriadau posib' ar allu adrannau.  Nodwyd pryder yn arbennig ar gyfer yr Adran Economi a Chymuned, i yrru'r elfen leol ac effaith hynny ar ffyniant economaidd y sir yn fwy cyffredinol.<br>• Y dylid gwreiddio'r strategaeth yn egwyddorion Ffordd Gwynedd, drwy wrando'n gyson ar y negeseuon sy'n dod yn ôl gan y sector leol ac addasu'r strategaeth yn unol â hynny.<br>• Y dylid ceisio sicrhau cefnogaeth i hybu a chreu cyfleoedd i fusnesau lleol, mentrau cymdeithasol ayyb i ddatblygu busnesau trwy adnabod y bylchau sydd yn y farchnad, gan gynnwys annog unigolion i sefydlu busnesau o'r newydd<br>• Y dylid lledaenu'r neges ar draws y Cyngor, fel bod pawb yn gwybod ac yn deall yn glir beth yw'r drefn newydd. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Gwelliant o ran trefniadau caffael y Cyngor, gyda ffocws ar gadw budd yn lleol i Wynedd a Gogledd Cymru.  Mae angen parhau i gadw llygad ar y maes yma. |

| **PCC2. STRATEGAETH TECHNOLEG GWYBODAETH DDRAFFT** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Bu i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu Strategaeth Technoleg ddrafft y Cyngor gan gynnig sylwadau adeiladol ar sut i'w gwella cyn i'r Strategaeth gael ei chyflwyno i'r Cabinet i gael ei chymeradwyo.  Ystyriwyd gwerth am arian ac effeithlonrwydd, ynghyd â chostau  a bodlonrwydd cwsmer. |
| <u>Argymhellion</u><br><br>Ystyriwyd y Strategaeth ddrafft gan gynnig sylwadau i'r Adran i gryfhau'r Strategaeth drwy gyfeirio ee at lwyddiant y strategaeth flaenorol a'i ddefnyddio fel sail i'r strategaeth newydd.<br>Nodwyd hefyd yr angen i'r Strategaeth fod yn hyblyg ac yn cael ei gyrru gan ofynion y cwsmer. |

| |
|---|
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Cafodd y strategaeth ddrafft ei diwygio cyn ei chyflwyno i'r Cabinet sydd bellach wedi ei mabwysiadu. Bydd y Strategaeth yn sail i gyflwyno technoleg gwybodaeth i ateb anghenion y defnyddwyr dros y blynyddoedd i ddod. |

| **PCC3. BUDD I WYNEDD O GADW'R TRETH FUSNES** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Mewn trafodaeth yn ymwneud â threthi busnes yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2015, bu i Aelod dynnu i sylw'r Cyngor fod Llywodraeth ganolog yn Lloegr wedi penderfynu fod cynghorau lleol Lloegr am gael cadw'r dreth busnes i gyd er mwyn ei ail fuddsoddi yn lleol. Esboniwyd nad dyma'r sefyllfa yng Nghymru.<br><br>Ystyriwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau (Cynghorydd Peredur Jenkins), y Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn amlinellu'r sefyllfa debygol i Wynedd petai Llywodraeth Cymru yn gosod yr un amodau yng Nghymru. Pwrpas y craffu oedd sicrhau a fyddai'r un drefn yng Nghymru yn debygol o arwain at fuddiannau, colledion, cyfleon neu beryglon i Wynedd. Gellid penderfynu yn dilyn y gwaith os oedd y Cyngor am gysylltu gyda'r Llywodraeth yng Nghymru. |
| <u>Argymhellion</u><br><br>Bu i'r Pwyllgor argymell na ddylid ysgrifennu at y Llywodraeth yng Nghymru ar hyn o bryd i ofyn am yr un telerau i Gymru. Pe cyfyd mwy o fanylion am ddatblygiadau tebyg i Gymru, gellid gwneud gwaith craffu pellach ar y mater bryd hynny. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Eglurder yn dilyn y craffu nad oedd angen gweithredu pellach. |

**B. Pwyllgor Craffu Cymunedau**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Y Cynghorydd Angela Russell |
| Is-Gadeirydd | Y Cynghorydd Caerwyn Roberts |

**Cylch Gorchwyl**

- Adfywio ac Economi
- Gwynedd Werdd
- Amgylchedd
- Rhwydwaith Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol
- Grymuso Cymunedau
- Gwastraff
- Tai
- Lleihau ôl-troed carbon
- Cynllun Datblygu Unedol

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd dau Ymchwiliad Craffu (Digartrefedd a Gorfodaeth Stryd) a craffwyd yn ffurfiol ar 13 o eitemau. Dyma restr ohonynt:-

- Atebolrwydd yr Awdurdod Tân – Herio cynrychiolwyr y Cyngor ar yr Awdurdod
- Hylendid Bwyd – Craffu cynnydd ar adroddiad archwiliwyr allanol
- Arbedion Effeithlonrwydd Goleuadau Stryd – Craffu bwriad I gyflwyno trefniadau newydd
- Gorfodaeth Stryd – Ystyried yr angen am Ymchwiliad Craffu (gweler isod)
- Ymchwiliad Craffu – Y Drefn Gynllunio (Cytuno brîff ar gyfer Ymchwiliad yn y dyfodol)
- Ymchwiliad Craffu Digartrefedd (Gweler isod)
- Cartrefi Cymunedol Gwynedd - Craffu cynnydd gwaith CCG yn erbyn addewidion y Cytundeb Trosglwyddo
- Yr Iaith Gymraeg a'r Drefn Gynllunio - Ystyried digonolrwydd yr ystyriaeth o'r Iaith Gymraeg yn y Drefn Gynllunio
- Cludiant Addysg Ol-16 - Craffu cynnydd ar argymhellion Ymchwiliad Craffu
- Cytundebau Adran 106 - Llunio cynigion i wneud gwell defnydd o'r Cytundebau hyn
- Gwastraff Gweddilliol ac Ail-gylchu - Craffu cyflwyno trefniadau casglu newydd
- Arbediad Effeithlonrwydd Gwasanaethau Pla Anstatudol - Craffu cynigion ar gyfer gweithredu newidiadau yn y Gwasanaethau Pla
- Yr Argyfwng Ffoaduriaid - Herio parodrwydd y Cyngor i ymateb i'r argyfwng

Nodir manylion pellach ar waith ac argymhellion y ddau Ymchwiliad Craffu gweithredol a hefyd ar rai o'r prif faterion a dderbyniodd sylw yn y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:-

**1. Ymchwiliadau Craffu**

Bu gwaith ar ddau Ymchwiliad Craffu yn ystod y flwyddyn:

| **CY1 Ymchwiliad Craffu Digartefedd** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y craffwyr</u><br><br>Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu i weithio ar friff a gytunwyd gyda'r Aelod Cabinet dros y maes Tai i ystyried y cwestiynau a ganlyn:- |

- Beth yw patrwm darpariaeth yr Awdurdod a'r partneriaid yn ei gyfanrwydd ar gyfer pobl ddigartref yng Ngwynedd?
- Pa mor addas yw darpariaeth yr Awdurdod a'r partneriaid i bobl ddigartref; - Teuluoedd - Merched - Pobl ifanc - Dynion sengl?
- A yw darpariaeth ar gyfer pobl ddigartref yn cwrdd ag anghenion y defnyddiwr?
- Pa mor hygyrch yw'r darpariaethau i'r defnyddiwr ac a oes mynediad rhwydd at wasanaethau allweddol eraill?
- A yw'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ddigartref yn gost effeithlon ac yn gynaliadwy?
- A yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i gwrdd â'r cynnydd tebygol yn nifer y digartref yn sgil y dirwasgiad presennol a'r diwygiadau yn y gyfundrefn les?
- Beth yw rôl partneriaid i ddarparu ar gyfer pobl ddigartref?
- A oes ystyriaeth yn cael ei roi i leoliad y ddarpariaeth, hynny yw, addasrwydd yr hosteli ar sail y gwasanaethau sydd ar gael?
- A oes ystyriaeth yn cael ei roi i gefndiroedd yr unigolion sydd yn aros yno?
- Beth yw'r broses cyflwyno?
- A yw'r ddarpariaeth yn ymateb i ddigartrefedd lleol?

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Tai

Dyma argymhellion yr Ymchwiliad i'r Aelod Cabinet gyda nodyn os y gwnaeth yr Aelod Cabinet dderbyn yr argymhellion hynny:-

| | |
|---|---|
| 1. Newidiadau yn y Gyfundrefn Les - bod yr Uwch Reolwr Tai yn arwain ar:-<br>a. Sicrhau cyhoeddusrwydd i effaith tebygol y newidiadau a'r cymorth sydd ar gael<br>b. Annog defnydd o'r System Undeb Credyd ar gyfer diogelu taliadau rhent | √<br>√ |
| 2. Gwasanaethau Cymodi - bod y Grŵp Gwasanaethau Ataliol a Llety Pobl Ifanc yn mapio'r gwasanaethau / broses cyfeirio am wasanaeth gyda golwg ar lunio cynigion i wella'r ddarpariaeth | √ |
| 3. Strwythur y Gwasanaeth Tai - bod yr Uned Strategol Tai yn casglu gwybodaeth am strwythurau Cynghorau eraill gyda golwg ar lunio cynigion i resymoli a symleiddio | √ |
| 4. Ffurflenni a Dogfennau'r Cyngor - bod y Tîm Opsiynau Tai yn ail-edrych ar eu ffurflenni gyda golwg ar eu symleiddio | √ |
| 5. Sefydlu Un Pwynt Cyfeirio - bod yr Uned Strategol Tai, Fforwm Digartref Gwynedd a'r Uned Cefnogi Pobl yn casglu gwybodaeth am drefniadau awdurdodau eraill i chwilio am ymarfer da o ran sefydlu un Pwynt Cyfeirio ar gyfer gwasanaethau | √ |
| 6. Gofal Cwsmer yn y Swyddfeydd - bod yr Uwch Reolwr Tai yn arwain gwaith i:-<br>a. wella'r eiddo a ddefnyddir gan y Tîm Digartrefedd yn Swyddfa Penrallt ar gyfer cyfweld unigolion<br>b. sicrhau cyfweliad wyneb yn wyneb gyda'r Tîm Opsiynau Tai yn ogystal â'r trefniant ffôn presennol | √<br>√ |
| 7. Gwybodaeth am yr Eiddo sydd ar gael - bod yr Uwch Reolwr Tai yn arwain ar:-<br>a. sefydlu bas-data o eiddo sydd ar gael y gellir cyfeirio ato ar unwaith neu o leiaf restr gyfredol o eiddo preifat a chyhoeddus allai fod ar gael gan landlordiaid preifat a chyhoeddus er mwyn eu holi ymhellach<br>b. gael mynediad at gyfrifiadur yn yr ystafell gyfweld er mwyn edrych gyda'r ymgeisydd yn syth. | √<br>√ |
| 8. Datblygu'r Sector Breifat - bod y Timau Digartrefedd a Cyflenwad a Gorfodaeth | |

| | |
|---|---|
| yn:-<br>a. ail gychwyn cyfarfodydd gyda landlordiaid preifat<br>b. datblygu Cynllun Aur / Arian / Efydd i landlordiaid dderbyn tenantiaid | √<br>√ |
| 9. Gwella'r Amrediad o Eiddo - bod y Gwasanaeth Tai yn:-<br>a. annog landlordiaid i addasu eiddo anodd ei osod i'w gwneud yn fwy addas i'r gofyn a gwneud defnydd o eiddo sydd ar gael (ee eiddo myfyrwyr ym Mangor)<br>b. dylai'r Adran gynnal trafodaethau buan gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd i wyntyllu'r rhesymau am y nifer a chydweithio i geisio atebion creadigol i'r broblem hynny<br>c. parhau i dargedu gwaith y Tîm Tai Gwag i gyfarch anghenion carfannau digartref | √<br>√<br>√ |
| 10. Darpariaeth ar gyfer Pobl 25+ - bod y Timau Digartref ac Opsiynau Tai yn cydweithio efo'r Sector Breifat i geisio cynyddu'r cyflenwad ar gyfer dynion sengl 25+ | √ |
| 11. Llety mewn Argyfwng i Bobl Ifanc<br>a) bod y Grŵp Gwasanaethau Ataliol a Llety Pobl Ifanc yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth "Night Stop / Crash Pad" yn y sir<br>b) bod y Gwasanaeth Tai yn cynnal trafodaeth benodol gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd am y defnydd o'i stoc i ddibenion digartrefedd | √<br>√ |
| 12. Storfa Symud Eiddo - bod y Tîm Digartrefedd yn ymchwilio i'r posibilrwydd gan greu achos busnes i ddenu cyllideb pellach ar gyfer ariannu darpariaeth o'r fath a'r posibilrwydd o ddefnyddio adnoddau presennol y Cyngor ar gyfer storio | √ |
| 13. Darpariaeth Hosteli'r Cyngor - bod yr Uwch Reolwr Tai a'r Tîm Digartrefedd yn ceisio adnoddau i fynd i'r afael â'r materion hygyrchedd a chyfleusterau a allai, yn achos Corris, arwain at edrych am leoliad gwahanol | √ |
| 14. Ffioedd Hosteli - bod y Timau Cefnogi Pobl a Digartrefedd yn ymchwilio i'r rhenti sydd cael eu gosod gan asiantaethau / y Cyngor | √ |
| 15. Hosteli'r Cyngor a'r Cymunedau Lleol - bod yr Uwch Reolwr Tai yn trefnu i'r cynghorwyr lleol fynychu'r sefydliadau | √ |
| 16. Darpariaeth "Hwb" - bod y Grŵp Gwasanaeth Ataliol a Gwasanaeth Llety Pobl Ifanc ar y cyd ag Economi yn trafod a oes modd datblygu achos busnes i sefydlu darpariaeth o'r fath gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig fel partner | √ |

Effaith Disgwyliedig

Derbyniwyd pob un o'r argymhellion gan yr Aelod Cabinet. Ym Mai 2016, sydd yn dechnegol y tu allan i ffenest amser yr adroddiad hwn, adroddwyd yn ôl I'r pwyllgor bod gweithredu wedi bod ar yr argymhellion i gyd ond nad oedd argymhellion 10, 11 ac 16 wedi dwyn ffrwyth yn llawn eto ar y pryd.

| **CY2 Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Stryd** |
| --- |
| <u>Beth wnaeth y craffwyr</u><br><br>Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu i weithio ar friff a gytunwyd gyda'r Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol i sefydlu ddealltwriaeth ynglyn â :-<br>• Beth yw'r disgwyliadau a'r gofynion statudol ynghlwm â'r gwasanaeth<br>• Beth yw'r perfformiad presennol o safbwynt allbynnau gorfodaeth<br>• Beth yw lefel adnoddau sydd ar gael ar gyfer gorfodi<br>ac i geisio ateb y cwestiynau a ganlyn:-<br>• Pa bosibiliadau eraill sydd ar gael i gynorthwyo mewn gorfodi e.e. heddlu<br>• Pa bosibiliadau eraill sydd ar gael o ran defnyddio cwmni/au pwrpasol i roddi hysbysiadau cosbau penodedig (fel sy'n weithredol yn siroedd Conwy a Dinbych)<br><br>Ar ben hynny, yn ystod y flwyddyn gwaeth y Cyngor llawn benderfynu, yn dilyn proses Her Gwynedd, bod yr Uned Gorfodaeth Stryd yn colli adnoddau fel rhan o Becyn Toriadau'r Cyngor. Roedd gofyn felly i'r Ymchwiliad gynorthwyo'r Gwasanaeth i ymateb i'r her hynny. |
| <u>Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros y maes Tai</u><br><br>Yr Ymchwiliad heb ei gwblhau yn ystod y flwyddyn. Cyflwynir argymhellion i'r Aelod Cabinet yn ystod Medi 2016<br><br><u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Gan fod yr argymhellion heb eu cyflwyno eto i'r Aelod Cabinet, adroddir ar effaith disgwyliedig yr Ymchwiliad yn adroddiad 2016/17. |

Ar ben hynny, bu'r Pwyllgor yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn gweithredu ar argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Cludiant Addysg Ol-16 a gwblhawyd yn ystod 2014/15.

Er bod y pwyllgor wedi croesawu'r cynnydd ar rai o'r argymhellion, roedd yn destun rhwystredigaeth mawr i'r Pwyllgor bod gweithredu ar y prif elfennau o gysoni a gwella ar y cynnig i fyfyrwyr heb ei wneud mewn da bryd ar gyfer dechrau blwyddyn addysgol 2016/17.

## 2. Gwaith y Pwyllgor

Nodir isod rai o'r prif faterion sydd wedi derbyn sylw yn y pwyllgorau craffu ffurfiol yn sytod y flwyddyn.

| **CP1. Trefniadau Casglu Gwastraff Gweddilliol ac Ail-gylchu** |
| --- |
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Bu'r Pwyllgor Craffu yn trafod hyn am yr ail dros ers iddo alw i fewn benderfyniad y Cabinet i symud i drefniadau casglu gwastraff gweddilliol bob tair wythnos fel rhan o strategaeth wastraff ac ail-gylchu'r Cyngor. |

| |
|---|
| Y tro hwn, cafodd ei graffu yn dilyn cyflwyno'r trefniadau newydd ym Meirionnydd, yr ail o ardaloedd y sir i weld cyflwyno'r trefniadau newydd. |
| Argymhellion<br><br>Wedi derbyn adroddiad ar weithredu'r trefniadau a oedd yn nodi bod ffigyrau perfformiad y sir, wedi cyflwyno'r trefniadau newydd yn Nwyfor a Meirionnydd, yn 58.52% ddiwedd Tachwedd 2015 yn erbyn targed o 58% erbyn Mawrth 2016 a bod y newidiadau hyn ar darged i gyflawni arbedion blynyddol o £350,000 i'r Cyngor (hyn yn ychwanegol i beidio talu dirywion), penderfynodd y pwyllgor,:-<br><br>a) eu bod yn falch o weld cynnydd yn y trefniadau ailgylchu a chasglu gwastraff a'u bod yn awyddus i gofnodi eu gwerthfawrogiad o waith caled y staff, yn arbennig felly yn ystod y tywydd garw<br>b) eu bod yn gweld yr angen i gyfarch rhai materion wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen:<br>• bod angen i'r Aelod Cabinet barhau i bwyso ar y Llywodraeth i wneud rhywbeth am leihau deunydd pacedu nwyddau<br>• Y dylid rhannu gwybodaeth gyda'r Aelodau yn gyffredinol ynglyn â datblygiadau 'wash and squash' i wella glendid y deunydd sydd yn cael ei gasglu<br>• bod yr Aelodau yn gobeithio gweld gwelliant pellach yn y taclusrwydd wrth gasglu gan hyderu y bydd y peiriannau newydd yn hwyluso hynny<br>• Y dylid parhau i edrych am atebion creadigol i heriau casglu mewn ardaloedd poblog trwy ddatblygu biniau cymunedol<br>• Y dylid sicrhau cynnydd pellach yn yr ymgysylltu a deialog gyda thrigolion er mwyn gwella ailgylchu ymhellach.<br>• Angen sicrhau bod trefniadau ailgylchu ar y stryd yn symud yn ei flaen gyda phwyslais ar gael negeseuon syml a hawdd i'w deall i'r cyhoedd ar y trefniadau hynny |
| Effaith Disgwyliedig<br><br>Gwelliant pellach yn nhrefniadau casglu gwastraff y Cyngor, gwelliant yn y cyfraddau ail-gylchu a lleihad yn y costau tra'n cyfarch y pryderon ymarferol sydd yn codi mewn cymunedau o weithredu'r trefniadau casglu newydd. |

| |
|---|
| **CP2. Deddf Diogelu Bwyd – Adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd** |
| Beth wnaeth y Craffwyr<br><br>Ail-ymweld ag ymateb y Cyngor i adroddiad beirniadol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd am agweddau o drefniadau'r Cyngor oedd ddim yn cydfynd â gofynion y Ddeddf Diogelu Bwyd.<br><br>Ar ôl craffu ymateb cychwynnol yr adran a herio swyddog o'r Asiantaeth Safonau Bwyd am ddigonolrwydd ymateb y Cyngor, galwyd yr Aelod Cabinet a'r Adran yn ôl gerbron y pwyllgor i weld a oedd yr arwyddion cynnar o wella wedi eu cynnal. |
| Argymhellion<br><br>Croesawodd y pwyllgor y ffaith bod yr Uned bellach wedi dileu'r diffygion cydymffurfiaeth ffurfiol a adnabuwyd yn ystod yr ymchwiliad a llongyfarchwyd y tîm ar eu gwaith o sicrhau bod |

| |
|---|
| trefniadau mewnol yr adran yn cydymffurfio gydag argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r achosion o E-coli 0157 yn Ne Cymru ym Medi 2005 a bod yr holl amcanion wedi eu cyflawni. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Disgwylir sicrwydd bod y gwelliant a welwyd mewn ymateb i'r adroddiad yn parhau ac na fydd adroddiadau beirniadol am agweddau o drefniadau'r Cyngor yn cael eu derbyn eto. |

| **CP3. Y Gwasanaethau Difa Pla Anstsatudol** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Craffu ymrwymiad y Gwasanaeth i weithredu arbediad effeithlonrwydd ym maes Difa Pla fel rhan o Strategaeth Arbedion y Cyngor. Heriwyd y dewisiadau gwahanol sydd gan y Gwasanaeth ar gyfer gweithredu'r arbediad. |
| <u>Argymhellion</u><br><br>Gofynnwyd i'r Adran ddychwelyd i'r pwyllgor ymhen 6 mis gyda chynigion ar gyfer strwythur ffioedd newydd a thargedau incwm realistig i'r gwasanaeth difa pla fod yn hunan-gynhaliol. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Disgwylid derbyn adroddiad yn ôl yn ystod 2016/17 (Mehefin 2016) ar gynigion diwygiedig ar gyfer cyfarfod yr her arbedion trwy wneud y gwasanaeth yn hunan-gynhaliol. |

| **CP4. Arbediad Effeithlonrwydd Goleuadau Stryd** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Ystyriwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet (Priffyrdd a Bwrdeistrefol) yn adrodd ar fwriad y Gwasanaeth i ymateb i ddatblygiadau diweddar mewn technoleg goleuo, gan ddiddymu'r drefn o newid lampau bob 3 blynedd gan arbed £97,000 y flwyddyn mewn costau cynnal goleuadau stryd a lleihau costau ynni ac allyriadau carbon. |
| <u>Argymhellion</u><br><br>Mynegodd y Pwyllgor Craffu fodlonrwydd gyda'r arbediad ac ei fod yn gwella'r profiad i drigolion Gwynedd. ar yr amod:-<br>a) bod yr Adran yn cadw golwg ar raddfa allbwn y goleuadau o ran diogelwch i'r cyhoedd<br>b) eu bod yn trafod gyda Cynghorau Cymuned yng nghyd-destun diffodd rhannol os yn berthnasol |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Gweithredu arbediad effeithlonrwydd sydd yn arbed £97,000 y flwyddyn mewn costau cynnal ac yn lleihau costau ynni ac allyriadau carbon. |

C**. Pwyllgor Craffu Gwasanaethau**

Cadeirydd Y Cynghorydd Peter Read
Is-gadeirydd Y Cynghorydd Beth Lawton

**Cylch Gorchwyl**

- Pobl Hŷn ac Oedolion
- Teuluoedd
- Plant a Phobl Ifanc
- Addysg
- Iechyd

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd tri Ymchwiliad Craffu (Addysg Gymraeg, O'r Ysbyty I'r Cartref (Rhan 2) ac Alltwen) a chraffwyd yn ffurfiol ar 22 o eitemau. Dyma restr ohonynt:-

- Gweledigaeth a Chyfeiriad Gwasanaethau Oedolion I'r Dyfodol
- Newidiadau yn y Gwasanaethau Anableddau Dysgu
- Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad – Diweddariad
- Ymchwiliad Craffu O'r Ysbyty I'r Cartref Rhan 2 – Adroddiad Terfynol
- Cynllun Trac
- Amodau Arweinyddiaeth a Modelau Amgen (Ysgolion)
- Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg – Adroddiad Terfynol
- Ymchwiliad Craffu Gwasanaethau Cefnogol Addysg – Cytuno Brîff
- Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol 2014-15
- Dechrau i'r Diwedd Oedolion
- Prosiect Her Gofal
- Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014-15 Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Adroddiad y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus
- Galluogi o fewn Trefniadau Gwaith Newydd Gwasanaethau Cymdeithasol
- Adroddiad Cynnydd Prosiect Ansawdd Addysg
- Newidiadau yn y Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
- Strategaeth Lletya Pobl Hŷn
- Trosolwg Perfformiad Maes Gofal – Chwarter 2 2015-16
- Rhaglen Waith yn deillio o Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014-15 AGGCC
- Ethol Aelod Craffu I'r Panel Rhiant Corfforaethol
- Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg
- Adroddiad Tracio Cynnydd ar Argymhellion Ymchwiliad Craffu o'r Ysbyty I'r Cartref Rhan 2

Rhoddir manylion pellach ar waith ac argymhellion y ddau Ymchwiliad a hefyd ar rai o'r prif faterion a dderbyniodd sylw yn y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:-

**3. Ymchwiliadau Craffu**

Bu gwaith ar dri Ymchwiliad Craffu yn ystod y flwyddyn:

**1a Ymchwiliad Craffu O'r Ysbyty I'r Cartref (Rhan 2)**

| |
|---|
| <u>Beth wnaeth y crafwyr</u><br><br>Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu i weithio ar friff a gytunwyd gyda'r Aelod Cabinet Gofal a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ran trefniadau trosglwyddo cleifion o'r ysbyty i'r cartref<br><br>Nod yr Ymchwiliad oedd ystyried y materion canlynol:<br><br>• Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau rhyddhau o safbwynt sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion hŷn, gan adnabod ac amlygu arferion da a meysydd sydd angen eu gwella.<br>• Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor o ran asesu, cynllunio a darparu gofal integredig a phriodol i gleifion hŷn sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.<br>• Rôl mudiadau Trydydd Sector o safbwynt cefnogi cleifion hŷn i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.<br>• Adnabod enghreifftiau o arferion da o ardaloedd eraill ac amlygu'r rhai y gellir eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith yng Ngwynedd/Gogledd Cymru.<br>• Llunio cyfres o argymhellion gwella i'w cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Gwynedd a mudiadau Trydydd Sector er mwyn ymateb i brif ganfyddiadau a chasgliadau'r ymchwiliad. |
| <u>Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Gofal Cyngor Gwynedd a Mr Peter Higson, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</u><br><br>Dyma argymhellion gyda √ yn nodi bod argymhelliad wedi cael ei dderbyn |

| | |
|---|---|
| 1 Cefnogi'r Trydydd Sector i gydlynu gwasanaethau ataliol a chefnogol yn y gymuned a sicrhau bod ganddynt adnoddau digonol i ddiwallu hyn ac i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gweithwyr rheng flaen o wasanaethau'r Trydydd Sector. | √<br><br>√ |
| 2 Asesu llwyddiant y Prosiect Gofal Canolradd a sicrhau dilyniant yn dilyn terfynu'r grant i ddelio gydag unrhyw ddiffygion sy'n parhau o safbwynt cynnal gwasanaeth y timau rhyddhau ysbytai, a thimau cymunedol yn llawn dros y penwythnosau. | √ |
| 3 Cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda I gytuno trefniant gyda Thîm Rhyddhau Ysbyty Bronglais I ryddhau cleifion I Dde Meirionnydd. | √ |
| 4 Cyfarch rhai o wendidau'r trefniadau trosglwyddo cleifion gan roi sylw lle bo angen i lunio Cynllun Gofal newydd yn fuan ar ôl i'r claf gyrraedd yr Ysbyty. | √ |
| 5 Deellir bod gwaith yn mynd rhagddo i wella sefyllfa prinder meddygon a nyrsys a bod angen cyfathrebu'r cynlluniau'n glir gan roi sylw arbennig i Ddwyfor a Meirionnydd. | √ |
| 6 Adolygu'r Protocol Rhyddhau gan ymgynghori gyda budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys y cleifion a'r cyhoedd yn unol â Chynlluniau Iaith Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd. | √ |
| 7 Asesu llwyddiant y gwaith sy'n mynd rhagddo ar waith Lean/Vanguard yn | |

| | |
|---|---|
| Ysbyty Alltwen I gyfarch y trefniadau biwrocrataidd presennol er mwyn rhyddhau amser staff i ddelio gyda'u prif ddyletswyddau o ddarparu gofal a nyrsio. | √ |

Effaith Disgwyliedig

Derbyniwyd pob un o'r argymhellion gan yr Aelod Cabinet.

Ail-gynullwyd aelodau'r Ymchwiliad ym mis Ionawr a Chwefror I gyfweld â'r Swyddogion rheng flaen, i weld a fu gweithredu ar yr argymhellion. Yn ogystal ym mis Mawrth 2016, adroddwyd yn ôl i'r pwyllgor craffu gan yr Aelod Cabinet a Chadeirydd y Bwrdd Iechyd.

Roedd yr asesiad yn dangos bod peth gweithredu ar yr holl argymhellion a bod Argymhelliad 6 wedi'i gyflawni'n llawn.

Penderfynwyd nad oedd angen tracio pellach ar Argymhelliad 6 a bod cyflawniad ar weddill yr argymhellion yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd anffurfiol ac yn y Gweithdy Craffu Blynyddol gan alw unrhyw fater yn ôl i'w graffu os bydd angen.

**1b Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg**

Beth wnaeth y crafwyr

Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg gan y Pwyllgor Craffu_Gwasanaethau er mwyn Asesu:

- sut y gweithredir Polisi Iaith yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol,
- y graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc.

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg

Dyma argymhellion gyda √ yn nodi bod argymhelliad wedi cael ei dderbyn

| Argymhellion | |
|---|---|
| **1.** Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, dylai'r Cyngor ddiffinio'r hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg ddwyieithog gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg y staff. | √ |
| **2.** Er mwyn cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, mae angen diffinio'n eglur natur ieithyddol holl ysgolion uwchradd Gwynedd fel ei fod yn glir i'r holl rhanddeiliaid beth yw natur ieithyddol yr ysgolion gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad. | √ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3.** | Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i blethu'r polisi i ddatblygu sgiliau dwyieithog hyfedr gyda gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. | √ | |
| **4.** | Dylid sicrhau fod canlyniadau arholiadau Saesneg yr un mor dda â'r Gymraeg, gan mai hyn yn ei dro fydd yn sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith. | √ | |
| **5.** | Er mwyn cynnal a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion yn unol â'r Polisi Iaith, dylai Ysgol Friars, gyda chefnogaeth y Cyngor, adnabod cyfleoedd i wneud cynnydd pellach o'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol. | √ | |
| **6.** | Sicrhau bod Llywodraethwyr pob ysgol yng Ngwynedd yn derbyn hyfforddiant ar ofynion y Polisi Iaith. | √ | |
| **7.** | Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor sicrhau cefnogaeth i athrawon, cymorthyddion a staff atodol i ddysgu'r Gymraeg, deall gofynion y Siarter Iaith, a derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith. | √ | |
| **8.** | Er cysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor ar draws y sir mae angen sicrhau bod holl ysgolion Gwynedd yn cydymffurfio â'r Polisi gan ddal yr ysgolion a'r Llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad. | √ | |
| **9.** | Er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r Cyngor gydweithio gydag ysgolion i sefydlu'r arfer bod pob athro pwnc yn y cyfnod cynradd ac uwchradd yn monitro ac yn adrodd ar ddatblygiad sgiliau Cymraeg a Saesneg pob disgybl mewn adroddiadau cynnydd ac yn trafod eu datblygiad gyda'r disgybl a'u rhieni ar achlysur nosweithiau rhieni. | √ | |
| **10.** | Sicrhau dilyniant ieithyddol cadarn rhwng CA2, CA3, CA4 a CA5 gan weithredu dulliau monitro cyson a phriodol, fyddai hefyd yn tracio cyfrwng iaith ar draws y cwricwlwm.<br><br>(Argymhelliad Adroddiad ESTYN Tachwedd 2014: "olrhain fesul ysgol y cyfrannau o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg a gosod targedau i gynyddu hyn yn ôl amcanion eu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg". | √ | |
| **11.** | Dylid sicrhau eglurder a chysondeb yn nulliau addysgu dwyieithog yn yr ysgolion gan feithrin sgiliau trawsieithu ymysg staff, gan ddiffinio'n eglur yr hyn ydyw dysgu dwyieithog gan fanylu ar:<br>i.) faint o'r Gymraeg a'r Saesneg y dylid ei ddefnyddio i addysgu<br>ii.) iaith ysgrifennu disgyblion mewn gwersi dwyieithog<br>iii.) beth yw'r disgwyliadau o safbwynt defnyddio'r Gymraeg/Saesneg mewn sgyrsiau a thrafodaethau dosbarth. | √ | |
| **12.** | Sicrhau bod:<br>i) y Siarter Iaith yn weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd<br>ii) arfer dda ar weithredu'r Siarter Iaith a chefnogi ac annog defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn modd adeiladol yn cael ei rannu rhwng ysgolion<br>iii) gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r we trwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi un o amcanion y Siarter Iaith. Dylai ysgolion wneud defnydd mwy helaeth o'r gwefannau, deunyddiau ac adnoddau ar-lein Cymraeg. Dylid cefnogi'r ysgolion i gyflawni hyn, lle bo'n briodol. | √ | |

| | |
|---|---|
| **13.** Mae rhai o ddarganfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu yn ymddangos yn adroddiad Trywydd ac argymhellir bod y Cyngor a'r Ysgolion yn gweithredu ar yr argymhellion yn yr adroddiad. | √ |
| **14.** Dylai'r ysgolion gynnwys y disgyblion mewn trafodaethau am:<br>i.) y Polisi Iaith<br>ii.) y Siarter Iaith<br>iii.) arferion iaith yr ysgol<br>gan sicrhau eu perchnogaeth hwythau ar y polisi. Dylai pob ysgol sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd ac arddel y Gymraeg. | √ |
| **15.** Er mwyn cadw myfyrwyr sydd yn ceisio am yr ail radd yng Nghymru dylai'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau lobio Llywodraeth Cymru i roi grant ar gyfer yr ail radd hefyd fel sydd yn digwydd yn Lloegr. | √ |
| **16.** Dylid hyrwyddo a marchnata manteision dwyieithrwydd mewn cydweithrediad gyda phob ysgol ar draws y sir, gyda'r ysgolion hefyd yn marchnata'r manteision rheiny ar eu gwefan, ymysg rhieni a disgyblion. | √ |
| **17.** Dylai'r Cyngor ddathlu llwyddiannau'r ysgolion a disgyblion y sir (bod canlyniadau profion yn y Gymraeg a'r Saesneg gystal â'i gilydd) a sicrhau bod yr holl ysgolion yn codi ymwybyddiaeth am y llwyddiannau hynny ar wefan yr ysgol. | √ |
| **18.** Er mwyn cefnogi disgyblion o gartrefi di-gymraeg i arddel y Gymraeg, dylai ysgolion a'r Cyngor ddatblygu dulliau (megis sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith, sgyrsiau gyda darpar ddisgyblion/rhieni ayyb) i sefydlu agweddau sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg a dwyieithrwydd. Dylid sicrhau bod arferion da sy'n bodoli eisoes yn cael eu rhannu. | √ |
| **19.** Er mwyn cryfhau amgylchedd ieithyddol Cymraeg a Chymreig yr ysgolion, dylai'r Cyngor gryfhau'r drefn o sefydlu gofynion ieithyddol swyddi mewn ysgolion wrth benodi staff newydd. | √ |
| **20.** Dylid sicrhau fod pob ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r Canolfannau Iaith, gan sicrhau atebolrwydd pob ysgol dros weithredu'r pecynnau ôl-ofal. | √ |
| **21.** Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu Canolfan Iaith i Fangor er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi Iaith. | √ |
| **22.** Sicrhau bod arfer dda yn cael ei rannu rhwng y Canolfannau Iaith a'r ysgolion. | √ |
| **23.** Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu darpariaeth addysg drochi benodol ar gyfer Ysgol Ardudwy (ac ysgolion a leolir mewn dalgylchoedd demograffig cyffelyb) er mwyn cefnogi gweithrediad a chyflawniad y Polisi Iaith. | √ |
| **24.** Dylai'r Cyngor drafod gyda Phrifysgol Bangor, y posibilrwydd o osod safon benodol i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a safon i ddatblygu sgiliau dwyieithog ar gyfer darpar athrawon fel rhan o'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC). | √ |

<u>Effaith Disgwyliedig</u>

Derbyniwyd pob un o'r argymhellion gan yr Aelod Cabinet.

Nid ydi'r Argymhellion wedi cael eu tracio hyd yn hyn.

Ar ben hynny, sefydlwyd Ymchwiliad I waith Ffordd Gwynedd yn Ysbyty Alltwen. Mae disgwyl i'r Adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ym mis Tachwedd 2016.

**4. Gwaith y Pwyllgor**

Nodir isod rai o'r prif faterion sydd wedi derbyn sylw yng nghyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor craffu yn ystod y flwyddyn.

| **2a Strategaeth Lletya Pobl Hŷn** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Roedd yr Aelodau Craffu'n croesawu'r cyfle i flaen-graffu'r Strategaeth allweddol hon er mwyn gwneud sylwadau i'r Aelod Cabinet Gofal cyn mynd am benderfyniad i'r Cabinet. |
| <u>Argymhellion</u><br><br>Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet ddangos tystiolaeth ac i gyfarch y pwyntiau canlynol:<br><br>- Bod y Cyngor a'i Bartneriaid yn glir beth yw'r weledigaeth ar gyfer lletya pobl hŷn.<br>- Bod y Cyngor a'i Bartneriaid yn cydweithio'n effeithiol i wireddu arbedion.<br>- Beth yw amcan y gost o gyflawni'r strategaeth?<br>- Ydi'r adnoddau ar gael?<br>- A oes perygl y bydd y gost i rai defnyddwyr am rai gwasanaethau y tu hwnt i'w cyrraedd?<br>- Beth fu mewnbwn pobl hŷn i'r strategaeth?<br>- Ydi'r Cynllun Strategol, Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys tafluniadau am anghenion lletya gwahanol grwpiau o bobl hŷn?<br>- Ydi'r berthynas rhwng y Strategaeth Lletya a'r Cynlluniau Comisiynu'n glir?<br>- Beth yw barn y rhan-ddeiliaid allweddol am y Strategaeth ddrafft – pobl hŷn bregus, darparwyr trydydd sector, cwmnïau'r sector breifat a sefydliadau cyhoeddus?<br>- Sut mae'r Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn a'r data o'r Datganiad Sefyllfa Marchnad wedi cyfrannu at y Strategaeth?<br>- Bod stoc o dai hynafol mewn rhai ardaloedd ac felly yn amhosibl darparu gwlâu ysbyty yn y tai oherwydd maint penodedig i wely ysbyty a'r angen i ystyried opsiynau gwahanol yn yr ardaloedd hyn.<br>- Bod angen cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol ar gyfer rhai ardaloedd i gyfarch y twf mewn nifer o bobl hŷn sydd wedi ymddeol i'r ardaloedd hyn a'r gost o ddarparu gwasanaethau iddynt. |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Sicrhau bod y Strategaeth mor gynhwysfawr â phosibl er mwyn dylanwadu'n effeithiol a phwrpasol ar gynlluniau tymor canolig a hir dymor yng Ngwynedd o safbwynt anghenion lletya. |

| **2b Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Mae'r Cyngor yn cynnal arolwg o faes Anghenion Dysgu Ychwanegol gyda'r nod o wella'r ddarpariaeth ar draws y Sir ac i wireddu arbediad o £808,466.<br><br>Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau Craffu ystyried y Strategaeth ddrafft sy'n un o gonglfeini strategol y Cyngor i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc bregus y Sir. |
| <u>Argymhellion</u><br><br>Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet gyfarch y pwyntiau canlynol:<br><br>- Cynnig yr un lefel o sicrwydd i ddisgyblion a rhieni ag sydd ar gael dan y gyfundrefn bresennol.<br>- Yr angen i gyfarch anghenion llai dwys a gwneud hynny'n fuan.<br>- Y perygl y byddai ysgolion yn methu ymdopi'n ddigonol gyda phwysau ychwanegol yn sgil pwyslais y strategaeth ar i'r ysgolion wneud mwy yn enwedig mewn ysgolion bach.<br>- Y risg y byddai cyraeddiadau cymharol is rhai disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn arwain at amharodrwydd gan ysgolion i'w cynnwys.<br>- Sut fyddwch chi'n mesur cynnydd y plant a pha effaith y mae'r ddarpariaeth a'r strategaeth newydd yn ei gael er y plentyn?<br>- Pryderon cyllidol yn sgil cost debygol ymestyn y ddarpariaeth hyd at 25 oed; a chostau ychwanegol cynnal gwasanaethau mewn ardaloedd<br>- Sicrhau bod trefniadau addas yn eu lle hyd nes y bydd y strategaeth newydd yn weithredol.<br>- Sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth yn y sector gynradd a chydweithio cadarn gyda'r sector uwchradd wrth drosglwyddo.<br>- A wnewch chi ddarparu hyfforddiant i gefnogi rôl Llywodraethwyr ysgolion? |
| <u>Effaith Disgwyliedig</u><br><br>Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth gan ddarparu Ysgol Arbennig newydd a modern ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y Sir. |

| **2c. Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus** |
|---|
| <u>Beth wnaeth y Craffwyr</u><br><br>Mae'r maes diogelu yn un o brif gyfrifoldebau'r Cyngor, ac yn un o brif flaenoriaethau'r Cynllun Strategol.<br><br>Ystyriwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Statudol ar waith y Panel yn ystod 2014-15 a sut fu i'r Panel ymateb i sylwadau gan yr Archwilwyr allanol. Cafwyd yn ogystal fraslun o waith y Panel ar gyfer 2015-16. |
| <u>Argymhellion</u><br><br>- Fedrwch chi ddangos sut mae'r Panel yn gwneud gwahaniaeth i unigolion? |

- A wnewch chi roi manylion i ni am faint o achosion chwythu'r chwiban a fu?
- Ydi'r ffaith eich bod yn ychwanegu polisi ar gyfer gwrth-fwlio 'cyber' yn awgrymu bod hyn yn broblem fawr yn y Sir?
- Ydi'r trefniadau cydweithio gydag ysgolion yn gweithio'n dda?
- Pryd fydd y Swyddog Diogelu Plant yn cychwyn?
- Gofynnwyd am ddiweddariadau i'r aelodau fel bod modd cadw golwg ar y pryderon a godwyd gan yr Archwilwyr allanol ar gartref preswyl Plas y Bryn, Bontnewydd.
- Mynegwyd pryder nad oedd cyfeiriad penodol at unigolion gydag anableddau dysgu.

Effaith Disgwyliedig

Mae herio gwaith y Panel yn gyhoeddus gan yr Aelodau Craffu yn fodd i sicrhau atebolrwydd am gynnal trefniadau effeithiol a chadernid ac addasrwydd y trefniadau hynny er budd pobl fregus y Sir.

**2ch Galluogi o fewn Trefniadau Gwaith Newydd**

Beth wnaeth y Craffwyr

Cynhaliwyd sesiwn rhagweithiol gyda'r Aelodau Craffu i asesu gwerth y trefniadau galluogi newydd ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd sy'n cael eu cynnal yn ardal Eifionydd. Yn ystod y sesiwn gwnaed nifer o awgrymiadau gan yr Aelodau a nodir isod fel argymhellion.

Argymhellion

- Bod rhai unigolion angen mwy o ofal gan rai swyddogion (e.e. nyrs gymunedol, therapydd, gweithiwr cymdeithasol) a bod angen ystyried caniatáu i'r swyddog sy'n gwneud y cyswllt mwyaf gyda'r claf neu ddefnyddiwr i arwain ar o broses o asesu anghenion.
- Mae angen mesur sut mae'r trefniadau gwaith newydd yn ysgafnhau'r baich ar deuluoedd.
- Os ydi'r defnyddiwr yn teimlo'n well, ni ddylid bod angen asesiad pellach, fe ddylid derbyn gair y person ei fod yn teimlo'n well ac nad ydyw angen cefnogaeth i barhau.
- Bod angen targedu'r gefnogaeth ar gyfer pobl sydd wir ei angen.
- Croesawu'r cynllun ond ei bod yn hynod bwysig bod mesuryddion pendant ar gyfer mesur pa wahaniaeth a wna'r cynllun i unigolion.
- Nodir nad cyfrifoldeb y Pwyllgor Craffu yw ystyried cost y cynllun, awgrymir yn gryf bod y Pwyllgor Archwilio'n cynnal gwaith manwl i fesur cost y gwasanaeth newydd ochr yn ochr ag unrhyw gynnydd neu leihad mewn costau cynnal gwasanaethau eraill sy'n cael eu heffeithio yn sgil y trefniadau newydd.
- Rhaid bod yn glir ynglŷn â phryd mae unigolion yn cyrraedd eu hamcanion.
- Yr angen i ehangu'r cynllun i ardaloedd Meirionnydd a gweddill Dwyfor ac i fod ar gael 7 diwrnod yr wythnos.
- Bod angen trwytho swyddogion ar yr angen i roi'r unigolyn yn gyntaf.

Effaith Disgwyliedig

Cynllunio a darparu gwasanaethau gofal ac iechyd ar y cyd sy'n rhoi'r unigolyn yn y canol.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **6 Hydref 2016** |
| **Teitl** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd 2015-16** |
| **Pwrpas** | **Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i Aelodau'r Cyngor** |
| **Awdur** | **Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau** |
| **Swyddog Perthnasol** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

**1.** Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol, sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**2.** I'r perwyl hyn penderfynodd y Pwyllgor gyhoeddi adroddiad blynyddol i egluro'r hyn y mae'n ei wneud ac i hyrwyddo ei waith.  Penderfynodd y Pwyllgor y dylid hefyd gyflwyno'r adroddiad yn ffurfiol i gyfarfod o'r Cyngor Llawn.

**3.** Mae'r Pwyllgor felly yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Cyngor.  Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gylchredeg i gynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**Argymhelliad**

**4.** Derbyn yr adroddiad

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# PWYLLGOR SAFONAU
# CYNGOR GWYNEDD

# 2015 - 2016

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Yn ystod cyfnod paratoi adroddiad y Pwyllgor Safonau am y flwyddyn aeth heibio cawsom ddaeargryn gyfansoddiadol na welwyd mo'i thebyg ers degawdau os erioed. Daeth hyn yn sgìl ymgyrch refferendwm fu'n un giaidd o du'r ddwy ochr oedd yn ymgyrchu i adael neu aros yn yr Undeb Ewropeaidd. Nid oedd fawr i'w ddathlu o ran safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus. Yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, wrth i oblygiadau'r penderfyniadau ddod yn amlwg fe fydd hi'n bwysicach nag erioed sicrhau fod egwyddorion bywyd cyhoeddus (egwyddorion Nolan) yn cael eu cynnal. Mae'n werth eu crynhoi'n fyr yma:

**Anhunanoldeb**. Sicrhau lles y cyhoedd ar bob cyfri, nid troi'r dŵr i felin ein hunain mewn unrhyw ffordd

**Unplygrwydd**. Osgoi bod mewn sefyllfa lle gall unigolion neu sefydliadau allanol ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn rhinwedd ein swyddi.

**Gwrthrychedd**. Ymhob peth, sicrhau fod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod nid nawdd

**Atebolrwydd**. Bod yn barod i fod yn atebol i'r cyhoedd ac yn agored i'r broses graffu

**Tryloywder**. Bod mor agored â phosib am y rhesymau dros wneud penderfyniadau

**Gonestrwydd.** Datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu

**Arweinyddiaeth**. Hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yma ac arwain drwy esiampl. Dyma'r llinyn mesur a'r safon a ddisgwylir.

Yn ffodus i ni fel Pwyllgor Safonau yng Ngwynedd dydi'r adroddiad yma ddim yn faith ac mae'n glod i'r Sir fod cyn lleied o achosion yn dod ger ein bron.
Nid da lle gellir gwell. Mae'r gyfundrefn llywodraeth leol yn cynyddu cyfrifoldebau ac mae aelodau'r pwyllgor yn parhau i ddysgu mwy am yr heriau drwy fynychu cyfarfodydd pwyllgorau a chynghorau a chefnogi'r Swyddog Monitro a'i dîm wrth iddynt gynnig hyfforddiant. Hoffwn annog pawb i fanteisio ar y cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael ei gynnig gan y Cyngor er mwyn sicrhau fod safonau bywyd cyhoeddus yng Ngwynedd yn cael eu cynnal bob amser ond yn enwedig yng nghanol y cyffro gwleidyddol sydd o bosib ar y gorwel.

**Dr Einir Young**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

Rwy'n falch o nodi fod yr adroddiad yn cyfleu neges gadarnhaol am y Cyngor. Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu ar draws trwch helaeth cynghorau cymuned y Sir. Mae cyfathrebu a sicrhau ymwybyddiaeth adeiladol yn gyfrwng pwysig i gynnal y safonau yma ac nid oes lle i laesu dwylo. Rwy'n falch felly y bu modd cynnal hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i aelodau'r Cyngor yma ynghyd â chyfres o seminarau i aelodau cynghorau tref a chymuned.

Yn ei anerchiad i gynhadledd Safonau Cymru yn Hydref 2015 cyfeiriodd yr Ombwdsmon, Nick Bennett yn ôl at egwyddorion Nolan a gyhoeddwyd yn 1995. Wrth edrych ar y saith egwyddor a'u perthnasedd i'r ugain mlynedd nesaf rhoddodd sylw penodol i'r egwyddor o arweinyddiaeth a'i bwysigrwydd wrth gynnal safonau uchel o ymddygiad mewn unrhyw gyfundrefn. Un o'i brif negeseuon oedd bod cyfrifoldeb ar bob un i ddangos arweinyddiaeth er cynnal safonau uchel o ymddygiad ac nad cyfrifoldeb y gellid ei briodoli i'r gyfundrefn safonau yn unig oedd hyn. Mae hon yn sicr yn neges amserol a pherthnasol.

**Iwan Evans**
**Swyddog Monitro**
**Cyngor Gwynedd**

# CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol

**Linda Byrne (2012 -15)**

Mae Linda wedi byw yng ngogledd Cymru ers 10 mlynedd, ac erbyn hyn yn gweithio i Gyngor ar Bopeth yng Nghaernarfon fel gwirfoddolwr. Mae ei gŵr yn Gymro a thri o'i wyrion ac wyresau yn siaradwyr Cymraeg. Bu'n darlithio mewn colegau addysg bellach yng ngogledd ddwyrain Lloegr a Chymru cyn gweithio fel Cynghorydd Anabledd i Fyfyrwyr ym mhrifysgolion Durham a Bangor. Gwasanaethodd fel cynghorydd tre am chwe blynedd a chynghorydd bwrdeistrefol am wyth mlynedd yn Sedgefield, Swydd Durham. Yn anffodus bu raid i Lynda roi'r gorau i'w sedd ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oherwydd gwaeledd.

**Margaret E Jones (aelod ers 2012)**

Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae'n ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.

**Dr Einir Young (aelod ers 2012)**

Wedi ei geni yn y Rhondda a'i magu yn Llanelli a Chwmtwrch mae Einir wedi ymgartrefu yng Ngwynedd ers bron i ddeg mlynedd ar hugain. Bu'n byw am gyfnod yng Nghaliffornia ac mae wedi teithio led led y byd yn enwedig i Affrica yn gweithio gyda chymunedau ymylol. Cymru yw canolbwynt ei gwaith erbyn hyn ond yr un yw'r heriau sy'n wynebu cymunedau - yr angen am weledigaeth hir dymor, sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er gwella neu'n atal pethau rhag mynd yn waeth, integreiddio ar draws cymunedau, cyd weithio ac efallai'n bwysicaf oll cynnwys pawb. Dyma'r union egwyddorion sydd i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor mae Einir a'i thîm yn y Labordy Cynaliadwyedd yn frwd dros hyrwyddo'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu hannog gan y ddeddf ar draws y sefydliad a thu hwnt. Mae cynnal safonau yn elfen

mor bwysig i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac i'w gadeirio.
Yn ei hamser hamdden mae Einir yn mwynhau cerdded ymysg pethau eraill ac ar hyn o bryd mae hi a'i chi ar daith o amgylch Llwybr Arfordir Cymru gyda'i chwaer.

**Jacqueline Hughes (aelod ers 2015)**

Mae Jackie yn byw yn Nantlle gyda'i gwr Ian, ei thair merch, ei hwyres a chi bywiog iawn. Yn wreiddiol o Gilgwri, cymhwysodd fel radiograffydd diagnostig yn 1987 ar ôl astudio yn Ysgol Radiograffeg Ysbyty Guys. Ar ôl ymgartrefu yng Ngogledd Cymru gyda'i theulu ifanc, ymunodd â staff yn Ysbyty Gwynedd. Mae gyrfa Jackie ym Mangor wedi datblygu fel radiograffydd ac fel cynrychiolydd cysylltiadau diwydiannol. Ar hyn o bryd hi yw Cadeirydd Ochr y Staff ar gyfer y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ogystal â bod yn gynrychiolydd lleol dros y rhan fwyaf o'r radiograffwyr yng Ngogledd Cymru. Bu'n Llywydd Cymdeithas a Choleg y Radiograffyddion ac roedd yn allweddol wrth ddatblygu'r ymateb i Adroddiad Francis, ac yn dilyn hynny côd ymddygiad newydd ar gyfer radiograffyddion. Mae hi'n credu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gweithio mewn bywyd cyhoeddus gynnal lefel uchel o safonau personol er mwyn bod yn gredadwy i'r cyhoedd.

**David Wareing (aelod ers 2015)**

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

**Aled Jones (aelod ers 2016)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o 20 aelod staff a dros 15 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Mae'n mwynhau pob math o chwaraeon a chaiff ei weld yn aml yn cefnogi Clwb Rygbi Bethesda a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd David Clay (aelod ers 2008)**

Mae David wedi bod yn aelod etholedig o Gyngor Tref Abermaw ers 29 mlynedd ac wedi bod yn gadeirydd ar bedwar achlysur gwahanol. Mae hefyd yn gyn gadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru. Cyn ymddeol bu'n cadw gwesty yn Abermaw am 30 mlynedd ac 'roedd yn aelod gweithgar o Gyngor Twristiaeth Canolbarth Cymru ac yn Gyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Eryl Jones-Williams (aelod ers 2011)**

Mae Eryl yn newyddiadurwr llawrydd wedi lled-ymddeol ac wedi cynrychioli Dyffryn Ardudwy a Thalybont ar Gyngor Gwynedd ers 2008. Mae'n gynghorydd tref a chymuned ers blynyddoedd ac wedi gwasanaethu fel Maer a Chadeirydd. Mae'n cymryd rhan weithgar yn y maes hawliau anabledd ac yn is-gadeirydd Grŵp Mynediad Meirionnydd yn ogystal ag aelod o Fforwm Mynediad De Eryri a Chyngor Cymuned GIG Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwynedd, lle gall dynnu ar ei brofiad fel cyn drwyddedai. Mae hefyd yn Bencampwr Gofalwyr y Sir. Mae'n gyn-ddyfarnwr pêl-droed Cymru ac mae ei ddiddordebau yn cynnwys chwarae golff yng Nghlwb Brenhinol Dewi Sant, Harlech ac yn Nolgellau.

**Cynghorydd Michael Sol Owen (aelod ers 2012)**

Mae Michael yn byw ym Mhwllheli ac yn cynrychioli rhanbarth etholiadol Gogledd Pwllheli ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012. Enillodd radd mewn Ffiseg a Gwyddoniaeth Deunyddiau, bu'n rheolwr gyfarwyddwr cwmni ym Mhwllheli a hefyd yn gweithio i'r Cynulliad fel ymgynghorydd busnes. Mae wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Pwllheli ers dros 30 mlynedd ac mae'n gadeirydd elusen Cynllun Ieuenctid Pwllheli. Mae'n gyn-Gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ac mae'n gwasanaethu fel aelod o Fwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

**Cynghorydd Lesley Day (aelod ers 2014)**

Bu Les yn Gynghorydd ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012 ac ar hyn o bryd mae hi'n gyn-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae hi wedi bod yn Gynghorydd Dinas Bangor ers 1991 ac mae hi'n gyn-faer, yn cynrychioli Ward Garth ym Mangor. Mae hi'n gyn-aelod ar Gyngor Bwrdeistrefol Arfon.

Mae cymwysterau, gyrfa a diddordebau Les yn gyfan gwbl mewn Llywodraeth Leol. Cafodd ei chymhwyster cyntaf mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Surrey. Ar ôl dychwelyd i Fangor, ei thref enedigol, cafodd gymwysterau ariannol llywodraeth leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Gwynedd. Ar ôl yr

aildrefnu yn 1996, trosglwyddodd Les i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Les yn Gadeirydd Canolfan Gymdeithasol Garth ac yn llywodraethwr yn Ysgol Hirael.

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru Ffôn 01286 679015
- Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol). E-bost: sionhuws@gwynedd.llyw.cymru Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2015 - 2016

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## Achosion fu gerbron y Pwyllgor

Cynhaliwyd gwrandawiad i ystyried un gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad gan aelodau etholedig.

Cynghorydd Julian Kirkham, Cyngor Cymuned Arthog

Cerydd am dorri paragraff 6(1)(a) - peidio ymddwyn mewn ffordd sy'n dwyn anfri ar swydd yr aelod neu ar ei awdurdod

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ystyriodd y Pwyllgor ddau gais am oddefiad yn ystod y cyfnod yma oddi wrth aelodau Cynghorau Cymuned. Gwrthodwyd y ddau gais.

## Hyfforddiant ar y Cod ymddygiad

Penderfynodd y Pwyllgor y dylid cynnig hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i aelodau a chlercod cynghorau cymuned a thref y sir ym mis Hydref 2015. Cynhaliwyd pedair sesiwn, ym Mhwllheli, Caernarfon, Dolgellau a'r Bala. Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan y Swyddog Monitro a'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) a mynychodd cynrychiolwyr o 30 o'r 64 cyngor tref a chymuned. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi i aelodau Gwynedd hefyd.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw

galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol.  Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**Atodiad 1**

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2015-16

## 13 Ebrill 2015

- Gwrandawiad – penderfynu ar gŵyn yn erbyn aelod etholedig

## 20 Ebrill 2015

- Cynnal Hunan Asesiad
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru
- Derbyn Cofnodion Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

## 29 Medi 2015

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2014/15
- Ystyried canllawiau diwygiedig yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad
- Llunio Rhaglen Waith ar gyfer y flwyddyn i ddod

## 5 Hydref 2015

- Ystyried dau gais am oddefeb
- Derbyn adroddiad gan Uwch Reolwr Refeniw a Risg y Cyngor ar Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## 25 Ionawr 2016

- Ystyried Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 a chyflwyno sylwadau i'w hystyried fel rhan o ymateb corfforaethol y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru
- Derbyn adroddiad ar Gynhadledd Safonau 2015
- Trafod arsyllu cyfarfodydd o bwyllgorau'r Cyngor a chynghorau cymuned a thref

**Atodiad 2**

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**

| **Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad** | **Penderfyniad yr Ombwdsmon** |
|---|---|
| Cwyn fod aelod cyngor cymuned wedi methu datgan buddiant personol | Dim ymchwiliad. Dim tystiolaeth fod yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ar y pryd. |
| Bod aelod wedi tresmasu ar eiddo'r achwynydd, wedi dadlau ag ef ac wedi cydio yn ei fys a'i blygu /nôl. Galwyd yr heddlu | Peidio ymchwilio. Dim tystiolaeth bod yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd. Nododd yr Ombwdsmon bod yr heddlu wedi eu galw. |
| Cwyn bod aelod o gyngor tref wedi cymryd rhan mewn cyfarfod lle'r oedd ganddi fuddiant oedd yn rhagfarnu. | Dim camau pellach i'w cymryd. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn fod tystiolaeth i awgrymu torri'r cod ond na fyddai'r Pwyllgor Safonau, yn yr amgylchiadau, yn rhoi unrhyw gosb bellach. |
| Wedi anfon e-bost at fudiad lleol ar ran y cyngor cymuned ond heb ei gymeradwyaeth. | Pwyllgor Safonau yn dyfarnu ei fod wedi torri'r cod ac yn penderfynu y dylai dderbyn cerydd. |
| Cwyn yn erbyn cynghorydd sir gaen aelod o'r cyhoedd, ei fod wedi cynnal ymgyrch leol mewn cysylltiad â mater penodol, ac wedi camarwain swyddogion y cyngor ynglŷn â'r amgylchiadau yn yr ardal. | Dim ymchwiliad – achwynydd heb ddarparu tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiadau. |

| | |
|---|---|
| Cwynion gan bedwar unigolyn yn deillio o'r un digwyddiad. Cwyno bod cynghorydd sir wedi gwneud cyhuddiadau difrifol nad oeddynt yn wir am unigolion oedd wedi bod yn cynnal protest, mewn e-byst ac ar Facebook. | Dim ymchwiliad - mae gan yr aelod yr hawl i fynegi barn yn enwedig os yw'n farn wleidyddol. Fel aelod etholedig roedd ganddo'r hawl i rannu ei farn wleidyddol ynglŷn â'r digwyddiadau dan sylw. |
| Roedd y cynghorydd wedi dwyn i ben sgwrs ffôn gyda'r achwynydd mewn perthynas â difrod a wnaed i eiddo'r achwynydd. | Dim ymchwiliad.<br><br>Tystiolaeth annigonol i gadarnhau'r gŵyn. Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio heb dystiolaeth gref sy'n awgrymu torri'r cod. |
| Roedd ymddygiad y cynghorydd mewn cyfarfod o'r cyngor tref wedi bod yn ymosodol tuag at, ac yn gwahaniaethu yn erbyn, corff lleol yn ystod trafodaeth ar gais am arian gan y corff hwnnw. | Dim ymchwiliad.<br><br>O'r dystiolaeth oedd ar gael nid oedd hi'n ymddangos bod yr aelod wedi torri'r cod. Roedd ganddo'r hawl, fel rhan o'i gyfrifoldebau fel cynghorydd, i ofyn cwestiynau a mynnu cadarnhad o fanylion yr ymgeisydd. |
| Cwyn gan gyd gynghorydd tref fod aelod wedi defnyddio ei gamera i fwlio'r achwynydd ar ddau achlysur ac wedi ei sarhau'n eiriol ar sawl achlysur. | Dim ymchwiliad.<br><br>Pan ddigwyddodd rhai o'r materion honedig nid oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd. Dim ond mewn amgylchiadau penodol iawn y bydd y cod yn berthnasol i gynghorydd pan fydd yn gweithredu fel unigolyn preifat, ac nid oedd yn ymddangos bod yr amgylchiadau hynny yn bodoli yn yr achos hwn. Nid oedd yr achwynydd yn medru cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r honiadau eraill. |

# Eitem 12

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor llawn |
| **DYDDIAD** | 6 Hydref 2016 |
| **TEITL** | Deddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 |
| **PWRPAS** | Hysbysu aelodau'r Cyngor o newidiadau a wnaed i Gynllun Dirprwyo Swyddogion y Cyfansoddiad er mwyn gweithredu Deddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 |
| **ARGYMHELLIAD** | Nodi er gwybodaeth |
| **AWDUR** | Iwan G D Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro |

1. Daeth y Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 ("Deddf 2014") i rym ar 20 Hydref 2014. Nod y ddeddf yw cyflwyno unigolion a sefydliadau gyda rhagor o hyblygrwydd wrth daclo ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Mae'r ddeddf yn diddymu nifer o hen rymoedd mewn deddfau amrywiol ac yn eu disodli gyda chyfres o rymoedd newydd, mwy syml a hyblyg.

2. Mae Deddf 2014 yn cyflwyno dau rym newydd i awdurdodau lleol sydd yn disodli hen rymoedd a ddefnyddiwyd gan swyddogion. Y grymoedd newydd hynny yw'r grym i gyhoeddi **rhybudd gwarchod y gymuned** a'r grym i gyhoeddi **rhybudd cau**:

   a. Gall y Cyngor gyflwyno rhybudd gwarchod y gymuned ar unigolyn, busnes neu sefydliad sydd yn achosi problemau neu niwsans penodol yn barhaus gan effeithio yn negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned. Mae'r problemau hyn yn gallu cynnwys graffiti, sbwriel a sŵn. Mae hawl apelio. Gall diffyg cydymffurfiaeth â'r rhybudd arwain at erlyniad, cyhoeddi cosb benodedig a sancsiynau eraill.

   b. Mae rhybudd cau yn caniatau'r Cyngor i gau eiddo yn sydyn ac am hyd at 48 awr lle defnyddir yr eiddo, neu lle mae'n debygol y defnyddir yr eiddo, i gyflawni trosedd ac anhrefn. Yn dilyn hynny gellir os oes angen gwneud cais i'r Llys Ynadon am orchymyn cau a all fod mewn grym am hyd at 6 mis. Mae torri naill ai'r rhybudd neu'r gorchymyn cau yn drosedd a all arwain at erlyniad.

3. Ar 26 Gorffennaf 2016 cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd Dyfed Edwards, drwy daflen benderfyniad gyfres o newidiadau i Gynllun Dirprwyo Swyddogion y Cyfansoddiad, er mwyn dirprwyo'r grymoedd uchod i'r penaethiaid gwasanaeth perthnasol. Gwnaethpwyd y newidiadau hyn yn unol â grym yr Arweinydd i addasu'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion mewn perthynas â swyddogaethau gweithredol, o dan Adran 5.8.3 o'r Cyfansoddiad.

4. Yn unol ag Adran 5.8.3 o’r Cyfansoddiad, gofynnir i mi fel Swyddog Monitro hysbysu’r Cyngor llawn o’r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd.

5. Yn yr amgylchiadau gallaf gadarnhau bod yr Arweinydd wedi diwygio’r Cynllun Dirprwyo Swyddogion drwy ddirprwyo i’r Pennaeth Oedolion y grym i gyhoeddi rhybudd cau yn unol ag Atodiad 1, i’r Pennaeth Priffyrdd y grym i gyhoeddi rhybudd gwarchod y gymuned yn unol ag Atodiad 2, ac i’r Pennaeth Rheoleiddio y grym i gyhoeddi rhybudd gwarchod y gymuned a rhybudd cau yn unol ag Atodiad 3.

**Iwan G D Evans**

**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro**

**6 Hydref 2016**

**ATODIAD 1 / APPENDIX 1:**

Yn Atodiad 3 i Adran 13, mewnosod y paragraff canlynol ar ôl paragraff 8.17:

"8.18 Pŵer i gyhoeddi rhybuddion cau o dan Rhan 4 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014."

*In Appendix 3 to Section 13, insert the following paragraph after paragraph 8.17:*

*"8.18 Power to issue closure notices under Part 4 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014."*

**ATODIAD 2 / APPENDIX 2:**

Yn Atodiad 3 i Adran 13, mewnosod y paragraff canlynol ar ôl paragraff 10.7:

"10.8 Pŵer i gyhoeddi rhybuddion gwarchod y gymuned o dan Rhan 4 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014."

*In Appendix 3 to Section 13, insert the following paragraph after paragraph 10.7:*

*"10.8 Power to issue community protection notices under Part 4 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014."*

**ATODIAD 3 / APPENDIX 3:**

Yn Atodiad 3 i Adran 13, mewnosod y paragraff canlynol ar ôl paragraff 11.17:

"11.17A Pŵer i gyhoeddi rhybuddion gwarchod y gymuned o dan Rhan 4 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014.

11.17B Pŵer i gyhoeddi rhybuddion cau o dan Rhan 4 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014."

*In Appendix 3 to Section 13, insert the following paragraph after paragraph 11.17:*

*"11.17A Power to issue community protection notices under Part 4 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014.*

*11.17B Power to issue closure notices under Part 4 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014."*

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **6ed Hydref 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru'r cydbwysedd gwleidyddol** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Addasu'r cydbwysedd gwleidyddol fel a nodir isod.** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Adroddwyd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 12fed o Fai, 2016 fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 39 |
| Annibynnol | 20 |
| Llais Gwynedd | 8 |
| Llafur | 5 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| Aelod Unigol | 1 |
| **Cyfanswm** | **75** |

1.2 Ers hynny, rydym wedi derbyn tri ymddiswyddiad, fel a ganlyn:

Chris O'Neal, Ward Marchog, Bangor (Grwp Annibynnol)
Sian Gwenllian, Ward Felinheli, (Plaid Cymru)
Eurig Wyn, Ward Waunfawr (Plaid Cymru)

1.3 Cynhaliwyd is-etholiadau yn y dair ward ac etholwyd fel a ganlyn:

Dylan Fernley, Ward Marchog, Bangor (Grwp Annibynnol)
Gareth Wyn Griffith, Ward Felinheli, (Plaid Cymru)
Edgar Wyn Owen, Ward Waunfawr (Plaid Cymru)

1.4 Yn ogystal, bu i ddau aelod newid eu grwpiau gwleidyddol:

Y Cynghorydd Dilwyn Lloyd wedi ymuno â'r Grwp Annibynnol (o Llais Gwynedd)

Y Cynghorydd Gwynfor Edwards bellach yn aelod o'r Grwp Gwyrdd yng Nghymru a Lloegr, lle bu'n aelod o'r Blaid Lafur yn flaenorol. Bydd yr aelod yn cael ei drin fel 'aelod unigol' ar gyfer adnabod y cydbwysedd gwleidyddol, gan fod yn rhaid i fwy nag un fod yn rhan o'r un blaid er mwyn ffurfio grwp.

1.5 I grynhoi felly, mae'r newididau uchod yn golygu fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 39 |
| Annibynnol | 21 |
| Llais Gwynedd | 7 |
| Llafur | 4 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| Aelod Unigol | 2 |
| **Cyfanswm** | **75** |

**2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU**

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

Disgwylir i'r Cyngor weithredu yn unol â'r rheolau hyn cyn belled a bo hynny'n ymarferol bosib.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

**3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU**

3.1 Golyga fod Aelod Unigol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac ar Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ar draul Grwp Llafur.

3.2 Hefyd, mae'r Grwp Annibynnol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Chydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ar draul Grwp Llais Gwynedd. (Gweler Atodiad A)

3.3 Fel y mae'r aelodau yn ymwybodol, nid yw'r argymhelliad yn llwyr adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol, a hynny yn sgil penderfyniadau blaenorol gan y Cyngor ar sail trafodaethau yn y Grwp Busnes i geisio cadw profiad ac arbennigedd o fewn gwahanol bwyllgorau gyda dim ond ychydig fisoedd i fynd tan yr etholiadau llywodraeth leol. Yn unol â'r drefn, bydd rhaid i aelodau bleidleisio dros y cynnig yn ddiwrthwynebiad.

**PENODIADAU I GYRFF ALLANOL**

3.4 Ar ddechrau cyfnod y Cyngor presennol ym mis Mai 2012 penodwyd i ddau gorff allanol, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Penderfynodd y Cyngor, yn ei gyfarfod ym Mai 2012 i benodi ar y sail hwn am dymor y Cyngor. Fodd bynnag mae'r rheolau balans gwleidyddol yn berthnasol ac adolygwyd hyn ym Medi 2013 pan y penderfynodd y Cyngor y bod y newid i'r ffigurau mor ymylol fel nad oedd gwir angen newid y gynrychiolaeth.

3.5 Fel y gwelir o Atodiad B, mae'r newidiadau mwyaf diweddar i'r cydbwysedd gwleidyddol yn golygu bod sail i adolygiad a fyddai'n arwain at newid ar gyfer Awdurdod y Parc. Fodd bynnag, gan mai dim ond ychydig fisoedd sydd ar ôl tan diwedd oes y Cyngor hwn, awgrymir y dylid glynu at y dyraniad a wnaed ym Mai, 2012.

**4. ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Cyngor bleidleisio dros y cynnig yn ddi-wrthwynebiad fel sydd wedi ei nodi yn 3.1, 3.2 a 3.5 uchod.

**ATODIAD A**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 5 | 2 | 0 | 1 | 1 |
| Cymunedau | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | |
| Gwasanaethau | 10 | 4 | 2 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 10 | 5 | 2 | 1 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 8 | 5 | 1 | 1 | | | |
| Iaith | 8 | 4 | 2 | 1 | | | |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | | |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 5 | 2 | | | | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 | |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | | |
| **Nifer y seddau** | **82** | **42** | **15** | **8** | **4** | **3** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 0 | 1 | 1 | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 3 | 0 | 1 | | 1 | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | | |
| CYSAG | 4 | 2 | 1 | | | | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **102** | **53** | **18** | **11** | **5** | **5** | **194** |

**ATODIAD B**

| **Corff** | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** | **Llais Gwynedd** | **Llafur** | **Democratiaid rhyddfrydol** | **Aelod unigol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Parc Cenedlaethol Eryri (rwan) | 4 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Newid yn unol â'r cydbwysedd | 5 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Tân | 3 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 6ed Hydref 2016 |
| **PWNC** | ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | CYFLWYNO CAIS I GYMERADWYO ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR |
| **AWDUR** | GERAINT OWEN,<br>PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi os yw aelod o awdurdod lleol yn methu mynychu unrhyw gyfarfod o'r awdurdod am gyfnod o chwe mis yn olynol o ddyddiad eu presenoldeb diwethaf, yna ni fyddant yn aelod o'r awdurdod mwyach.

1.2 Yr unig eithriad i hyn yw os y cymeradwyir yr absenoldeb gan yr awdurdod.

**2. SEFYLLFA PRESENNOL CYNGHORYDD YNG NGHYNGOR GWYNEDD**

2.1 Mae'r Cynghorydd Peter Read wedi bod yn anhwylus ers tro ac yn derbyn triniaeth sydd wedi effeithio ac yn debygol o barhau i effeithio ar ei allu i fynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r awdurdod, er nad yw'n glir ar hyn o bryd am ba hyd y mae hyn am fod yn broblem.

2.2 Mae gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Peter Read o gyfarfodydd yr awdurdod er mwyn ei alluogi i barhau i fod yn aelod.

2.3 Os na roddir cymeradwyaeth i'r absenoldeb, yna byddai cyfnod y Cynghorydd Peter Read fel aelod o'r Cyngor yn dod i ben 6 mis ar ôl ei bresenoldeb diwethaf mewn cyfarfod o'r Cyngor.

2.4 Awgrymir, o dan yr amgylchiadau, y dylid cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Peter Read.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Peter Read o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd yr amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei alluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.